



YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

34/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

18 Hydref 2017

# Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17

## Adroddiad Technegol (wedi'i ddiweddaru)

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17  
Adroddiad Technegol

**Awduron:**

Martina Aumeyr  
Zoe Brown  
Robert Doherty  
Andy Fallows  
Tom Pegg  
Rafael Perez-Dominguez  
Ria Sanderson  
Lloyd Shemwell

|                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Aumeyr et al. (2017) <i>Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17: Adroddiad Technegol</i>. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad ymchwil gymdeithasol 34/2017<br/>Ar gael yn: <a href="http://www.llyw.cymru/arolwgcenedlaethol">www.llyw.cymru/arolwgcenedlaethol</a></p> |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

Barn yr awduron a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Chris McGowan  
Tîm yr Arolwg Cenedlaethol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 025 1067  
E-bost: [chris.mcgowan@llyw.cymru](mailto:chris.mcgowan@llyw.cymru)

## Tabl cynnwys

|    |                                                             |    |
|----|-------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg .....                     | 5  |
|    | Arolwg Cenedlaethol newydd Cymru, 2016 ymlaen .....         | 5  |
|    | Trosolwg o Arolwg Cenedlaethol 2016-17 .....                | 5  |
|    | Strwythur yr adroddiad .....                                | 7  |
| 2. | Gwaith datblygu .....                                       | 8  |
|    | Datblygu'r arolwg cyn mis Ebrill 2016 .....                 | 8  |
|    | Datblygu'r arolwg - mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017 ..... | 10 |
| 3. | Samplu .....                                                | 12 |
|    | Dyluniad y sampl .....                                      | 12 |
|    | Dewis cyfeiriadau (gan gynnwys sampl wrth gefn) .....       | 13 |
|    | Trefnu'r Sampl yn sypiau a'u dyrannu .....                  | 16 |
|    | Dewis anheddau, aelwydydd ac unigolion .....                | 18 |
| 4. | Cynnwys a datblygiad yr holiadur .....                      | 19 |
|    | Trosolwg o'r holiadur .....                                 | 19 |
|    | Cynnwys a datblygiad yr holiadur .....                      | 19 |
|    | Rhaglennu a phrofi'r holiadur .....                         | 21 |
|    | Cardiau dangos .....                                        | 23 |
|    | Cyfieithu i'r Gymraeg .....                                 | 24 |
|    | Amseriadau cyfweliadau .....                                | 25 |
|    | Newidiadau i'r holiadur .....                               | 26 |
| 5. | Gwaith maes .....                                           | 27 |
|    | Recriwtio cyfwelwyr .....                                   | 27 |
|    | Briffio cyfwelwyr .....                                     | 28 |
|    | Goruchwyliaeth a rheoli ansawdd .....                       | 29 |
|    | Dyddiadau gwaith maes, rheoli a gweithdrefnau .....         | 30 |
|    | Dogfennau gwaith maes .....                                 | 31 |
|    | Tudalennau gwe am yr arolwg .....                           | 35 |
|    | Cyfweliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill .....       | 35 |
|    | Canlyniadau samplau .....                                   | 38 |
|    | Sampl a chyfeiriadau a ailddyroddwyd .....                  | 40 |
|    | Sampl a sicrhawyd .....                                     | 40 |
|    | Camau i unioni'r ymateb isel .....                          | 43 |

|                                               |    |
|-----------------------------------------------|----|
| 6. Prosesu ac allbynnau data .....            | 45 |
| Troi achosion cyfweiliadau yn set ddata ..... | 45 |
| Codio a golygu data .....                     | 45 |
| Newidynnau deilliedig .....                   | 46 |
| Allbynnau data .....                          | 46 |
| Argaeledd data .....                          | 47 |
| 7. Pwysoli, diffyg ymateb a dadansoddi .....  | 48 |
| Pwysoliadau dyluniad .....                    | 49 |
| Graddnodi pwysoliadau .....                   | 50 |
| Effeithiau a ffactorau dyluniad .....         | 55 |

Mae'r atodiadau technegol canlynol wedi'u cynnwys ar ddiwedd y canllaw technegol hwn.

Atodiad A – Grid Kish

Atodiad B – Manyleb is-samplu

Atodiad C – Amseriadau'r Arolwg

Atodiad Ch – Llythyr ymlaen llaw Llywodraeth Cymru

Atodiad D – Taflen arolwg Llywodraeth Cymru

Atodiad Dd – Llythyr ymlaen llaw a thaflen SYG

Atodiad E - Cerdyn Dangos a Siart Lif Cysylltu Data

Atodiad F – Taflen 'diolch'

Atodiad Ff - Rhestr o Newidynnau Deilliedig

Atodiad G – Pwysoliadau'r Arolwg Cenedlaethol

Atodiad NG – Tabl samplu

Atodiad H – Disgrifiadau o godau canlyniadau

Atodiad I – Effaith a Ffactorau Dylunio



## Rhestr tablau

|                                                                                              |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Tabl 2.1: Cymharu ymateb yr arbrawf cymhellant.....                                          | 11 |
| Tabl 3.1: Nifer y cyfeiriadau a gynhwyswyd yn brif sampl yn ôl ALI .....                     | 14 |
| Tabl 3.2: Cwotâu sampl wrth gefn yn ôl ALI.....                                              | 15 |
| Tabl 3.3: Sampl a ddyroddwyd yn ôl mis .....                                                 | 16 |
| Tabl 5.1: Nifer y cyfwelwyr yn ôl misoedd yr arolwg.....                                     | 28 |
| Tabl 5.2: Deunyddiau'r arolwg.....                                                           | 33 |
| Tabl 5.3: Iaith y cyfweliad .....                                                            | 36 |
| Tabl 5.4: Canlyniadau'r sampl ar lefel genedlaethol .....                                    | 38 |
| Tabl 5.5: Canlyniadau'r sampl ar lefel awdurdod lleol.....                                   | 39 |
| Tabl 5.6: Canlyniadau yn ôl y prif arolwg o'i gymharu â'r cyfnod ailddyroddi .....           | 40 |
| Tabl 5.7: Cyfweliadau a sicrhawyd fesul chwarter .....                                       | 41 |
| Tabl 5.8: Cyfradd ymateb a gyflawnwyd yn ôl ALI (yn nhrefn y gyfradd ymateb) .....           | 42 |
| Tabl 7.1: Newidynnau a ddefnyddiwyd i raddnodi pwysoliadau .....                             | 51 |
| Tabl 7.2: Amcangyfrifon o boblogaeth breswyl 2015 yn ôl oedran a rhyw.....                   | 52 |
| Tabl 7.3: Amcangyfrifon o boblogaeth 2015, a amcanestynnwyd yn ôl oedran ac Awdurdod Lleol.. | 53 |
| Tabl 7.4: Amcangyfrifon o ddeiliadaeth aelwydydd 2015, a amcanestynnwyd yn ôl Awdurdod Leol  | 54 |
| Tabl 7.5: Amcangyfrifon o aelodaeth aelwydydd 2015.....                                      | 54 |

## Rhestr ffigurau

|                                                                                        |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Ffigur 4.1: Hyd cyfweliadau ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg .....                   | 25 |
| Ffigur 4.2: Dosbarthiad hyd cyfweliadau (heb gynnwys misoedd y modiwl ar drethi) ..... | 26 |

## Rhestr termau

| <b>Term</b>         | <b>Diffiniad</b>                                                        |
|---------------------|-------------------------------------------------------------------------|
| ALI                 | Awdurdod lleol                                                          |
| Arolwg Cenedlaethol | Arolwg Cenedlaethol Cymru                                               |
| Blaise              | Statistics Netherland Blaise Enterprise 4.8                             |
| CAPI                | Cyfweliad personol â chymorth cyfrifiadur                               |
| CASI                | Hunangyfweliad â chymorth cyfrifiadur                                   |
| MALIC               | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru                                       |
| PAF                 | Ffeil Cyfeiriad Cod Post y Post Brenhinol                               |
| SPSS                | Pecyn Ystadegol ar gyfer y Wyddor Gymdeithasol –<br>IBM SPSS Statistics |
| SYG                 | Swyddfa Ystadegau Gwladol                                               |

# 1. Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg

## Arolwg Cenedlaethol newydd Cymru, 2016 ymlaen

- 1.1 Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn arolwg newydd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, yn olynu pum arolwg a gomisiynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru a thri o'r cyrff a noddur ganddi (Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru). Mae'r arolwg yn rhoi tystiolaeth allweddol ynglŷn â safbwyntiau a llesiant pobl er mwyn llywio penderfyniadau gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- 1.2 Bwriad yr arolwg newydd hwn yw diwallu anghenion gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn fwy effeithiol, a lleihau'r baich ar ymatebwyr a chostau cyffredinol yr arolwg ar yr un pryd. Mae'r newid hwn mewn strategaeth yn dilyn adolygiad cynhwysfawr yn 2014<sup>1</sup> ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer cynnal arolygon ar raddfa fawr yng Nghymru yn y dyfodol.
- 1.3 Yr arolygon a ddygwyd ynghyd yw:
- Arolwg Cenedlaethol (2012-15)
  - Arolwg Iechyd Cymru
  - Arolwg o Oedolion Egnïol
  - Arolwg o'r Celfyddydau yng Nghymru
  - Arolwg o Hamdden Awyr Agored yng Nghymru
- 1.4 Mae defnyddwyr arolygon a rhanddeiliaid yn amrywio o dimau polisi Llywodraeth Cymru i sefydliadau allanol sydd â diddordeb yn yr Arolwg Cenedlaethol, megis awdurdodau lleol, sefydliadau iechyd, cyrff y trydydd sector, darparwyr gwasanaethau, a phrifysgolion.<sup>2</sup>

## Trosolwg o Arolwg Cenedlaethol 2016-17

- 1.5 Roedd blwyddyn gyntaf yr arolwg cyntaf, a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), yn rhedeg rhwng diwedd mis Mawrth 2016 a diwedd mis Mawrth 2017. Roedd yn cynnwys cynnal 10,493 o gyfweiliadau â phobl 16 oed a hŷn yn seiliedig ar sampl o gyfeiriadau preswyl ledled Cymru a ddewiswyd ar hap.

<sup>1</sup> Smith, P. Nicolaas, G.; Sturgis, P. (2014); Opsiynau ar gyfer cynnal arolygon ar raddfa fawr yng Nghymru: Adroddiad i Lywodraeth Cymru, 27 Tachwedd 2014, Rhif cyhoeddi 101/2014, <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/141127-options-carrying-out-large-scale-surveys-wales-en.pdf>

<sup>2</sup> Silvia Manclossi S. (2017); Arolwg Cenedlaethol Cymru. Crynodeb o adborth defnyddwyr: Opsiynau ar gyfer allbynnau Arolwg Cenedlaethol 2016-17. Llywodraeth Cymru, 16 Ionawr 2017, Rhif cyhoeddi 01/2017, <http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170116-national-survey-2016-17-survey-output-options-cy.pdf>

- 1.6 Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb gan gyfweiliwyr hyfforddedig SYG a oedd yn defnyddio cyfrifiaduron cludadwy. Hyd y cyfweiliadau ar gyfartaledd oedd 45 munud, ac eithrio yn ystod mis Hydref i fis Rhagfyr 2016 pan oeddent yn 50 munud ar gyfartaledd, a hynny am i fodiwl ychwanegol o gwestiynau gael ei ychwanegu ar gyfer y chwarter hwnnw (gweler adran 4). Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfanswm o 66 o brif fodiwlau ynghyd â'r modiwl ychwanegol. Roedd y rhain wedi'u dylunio i gwmpasu'r amrywiaeth o bynciau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddur ganddi megis:
- iechyd (e.e. deiet, yfed alcohol, smygu a gweithgarwch corfforol);
  - iechyd plant, gofal plant ac addysg;
  - cymryd rhan mewn chwaraeon;
  - defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a boddhad gyda gwasanaethau cyhoeddus
  - sefyllfa ariannol a thlodi;
  - llesiant ac unigedd;
  - mynediad i'r rhyngrwyd a defnyddio'r rhyngrwyd;
  - yr amgylchedd.
- 1.7 Roedd holiadur yr arolwg a'r holl ddeunyddiau ategol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn (yr arolwg peilot a'r prif arolwg), gyda chyfweiliadau yn cael eu cynnig hefyd mewn ieithoedd eraill gyda chymorth cyfieithydd yn ôl yr angen. At hynny, ar gyfer rhai pynciau defnyddiwyd is-samplu i gasglu amcangyfrifon cadarn ar lefel genedlaethol mor effeithlon â phosibl.
- 1.8 Defnyddiwyd sampl o 21,000 o gyfeiriadau i gyd, a ddaeth o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post defnyddwyr bach Swyddfa'r Post, yn yr arolwg. Ychwanegwyd sampl ychwanegol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 mewn meysydd lle roedd ymatebion yn is na'r hyn a ragwelwyd. Roedd y sampl wedi'i haenu ar sail y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (ALLau) gydag ymdrech yr arolwg yn gymesur yn fras â maint poblogaeth ALLau gyda gorsamplu er mwyn sicrhau isafswm maint sampl effeithiol o 250 mewn ALLau llai o faint ac isafswm maint sampl effeithiol o 750 ym Mhowys.<sup>3</sup> Roedd nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd ym mhob ALI dros flwyddyn gyfan yr arolwg yn amrywio o 336 ym Mro Morgannwg i 734 yng Nghaerdydd ac eithrio Powys, lle cofnodwyd 1,212 o gyfweiliadau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn).

---

<sup>3</sup> Gwnaed hyn er mwyn cael amcangyfrifon digon manwl ar lefel y Bwrdd Iechyd ar gyfer Powys ac er mwyn osgoi sefyllfa lle roedd hyd y cyfweiliad ym Mhowys yn rhy hir oherwydd is-samplu.

- 1.9 Cynhaliwyd arolwg peilot bach ym mis Ionawr 2016 er mwyn rhoi prawf ar systemau a phrosesau SYG. Bu'r arolwg peilot hefyd yn fodd i wella cynnwys yr holiadur ymhellach a sicrhau deunyddiau arolwg gwell, a rhoi amcan o hyd y cyfweiliad ar gyfartaledd.
- 1.10 Cynhaliwyd rhagor o waith ymchwil, gwaith optimeiddio'r arolwg a gwaith datblygu arall gan SYG yn ystod cyfnod yr arolwg. Roedd hyn yn cynnwys arbrawf cymhelliant sampl holltedig a chyflwyno cymhelliant amodol wedyn ar gyfer yr arolwg, cyflwyno modiwl omnibws ar ymwybyddiaeth o drethi, diweddariadau i ddeunyddiau'r arolwg, hyfforddi cyfwelwyr, sampl ychwanegol, a sefydlu systemau prosesu data, a gaiff eu cwmpasu yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.
- 1.11 Dyroddwyd gwaith maes yn barhaus bob mis gyda rhai achosion yn cael eu hailddyroddi y mis dilynol os oeddent yn debygol o sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

### **Strwythur yr adroddiad**

- 1.12 Bwriedir i'r adroddiad hwn roi disgrifiad clir a dealladwy o'r ffordd yr aethpwyd ati i gasglu a phrosesu'r data.
- 1.13 Ar ôl y bennod gyflwyno, mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n saith pennod arall:
- Mae **Pennod 2** ('Gwaith datblygu'r arolwg') yn cynnwys trosolwg o'r ffordd y cafodd dyluniad yr arolwg ei ddatblygu, yn ogystal â gwaith datblygu arall a gynhaliwyd yn ystod 2016/17.
  - Mae **Pennod 3** ('Samplu') yn disgrifio'r broses o ddewis cyfeiriadau ar gyfer yr arolwg.
  - Mae **Pennod 4** ('Cynnwys a datblygiad yr holiadur') yn ystyried y broses o ddatblygu cwestiynau ar gyfer meysydd pwnc i'w cynnwys yn yr arolwg, a'r gwaith datblygu a phrofi a gynhaliwyd ar holiadur yr arolwg a'i broses weithredu gyfrifiadurol.
  - Mae **Pennod 5** ('Gwaith maes') yn cwmpasu'r broses o baratoi cyfwelwyr ar gyfer gwaith maes, gweithdrefnau gwaith maes, niferoedd cyfweiliadau, cyfraddau ymateb, ac amseriadau cyfweiliadau.
  - Mae **Pennod 6** ('Prosesu data ac allbynnau') yn rhoi trosolwg o'r broses o'r ffordd y cafodd y setiau data eu paratoi a'u pennu'n derfynol.
  - Mae **Pennod 7** ('Pwysoli a diffyg ymateb') yn disgrifio'r broses bwysoli.
  - Mae **Pennod 8** ('Crynodeb ac argymhellion') yn rhoi trosolwg o'r ffordd yr aeth yr arolwg cyntaf ac yn ystyried goblygiadau posibl i flwyddyn arolwg 2017-18.

## 2. Gwaith datblygu

- 2.1 Gan mai arolwg newydd yw Arolwg Cenedlaethol 2016-17, sy'n disodli pum arolwg ar wahân a gomisiynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner, cynhaliwyd cryn dipyn o waith datblygu gan nifer o sefydliadau cyn dechrau'r gwaith maes ym mis Mawrth 2016. Cynhaliwyd gwaith datblygu arall yn ystod y flwyddyn gyntaf o waith maes rhwng diwedd mis Mawrth 2016 a mis Mawrth 2017.

### Datblygu'r arolwg cyn mis Ebrill 2016

- 2.2 Ym mis Mai 2014 comisiynodd Llywodraeth Cymru [adolygiad](#) yn ystyried opsiynau ar gyfer casglu'r wybodaeth angenrheidiol yn fwy costeffeithiol<sup>4</sup>. Penderfynwyd mai'r opsiwn a roddodd y gwerth gorau am arian, gan gadw lefel ansawdd y data yr oedd ei hangen, oedd cyflwyno un arolwg newydd yn lle'r pum arolwg canlynol:

- Roedd yr **Arolwg Cenedlaethol (2012-2015)** yn cwmpasu pynciau a oedd yn berthnasol i bolisiâu a safbwyntiau ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus mewn cyfweiliad wyneb yn wyneb 25 munud o hyd, a oedd yn cynnwys 14,500 o gyfweiliadau y flwyddyn.
- Ymchwiliodd **Arolwg Iechyd Cymru** i nifer o faterion a oedd yn ymwneud ag iechyd a defnyddio gwasanaethau iechyd mewn cyfweiliad wyneb yn wyneb byr gan un person fesul aelwyd, wedi'i ddilyn gan holiadur hunan gwblhau ar gyfer pob aelod o'r aelwyd, a oedd yn cynnwys 15,000 o oedolion a 3,000 o blant bob blwyddyn.
- Casglodd yr **Arolwg o Oedolion Egniol** wybodaeth am lefelau cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill, gan gwmpasu safbwyntiau 8,000 o ymatebwyr mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb 20 munud o hyd yn 2014.
- Edrychodd yr **Arolwg o'r Celfyddydau yng Nghymru** ar lefelau ymgysylltu pobl â'r celfyddydau a'u hagweddau tuag atynt yng Nghymru, a oedd yn cynnwys 7,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb 15 munud o hyd bob pum mlynedd.
- Roedd **Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru** yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â'r defnydd o fannau awyr agored a'r rhwystrau i'w defnyddio yng Nghymru, manteision iechyd a manteision economaidd gweithgareddau awyr agored, ac

---

<sup>4</sup> Smith P., Nicolaas G., Sturgis P., *Opsiynau ar gyfer cynnal arolygon ar raddfa fawr yng Nghymru: Adroddiad i Lywodraeth Cymru*. Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 101/2014

agweddau tuag at yr amgylchedd. Roedd yr arolwg, a gâi ei gynnal bob tair blynedd, yn cynnwys 6,400 o gyfweiliadau 15-20 munud o hyd dros y ffôn.

2.3 Mae'r Arolwg Cenedlaethol newydd yn cyfuno'r holl arolygon uchod yn un arolwg sampl tebygolrwydd ar hap wyneb yn wyneb, yn debyg o ran dyluniad i'r Arolwg Cenedlaethol blaenorol (2012-2015). Roedd y camau nesaf yn y gwaith o ddatblygu'r arolwg newydd fel a ganlyn:

- Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol i gynnal adolygiad o'r holiadur drafft<sup>5</sup> ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol newydd a chymharu dulliau gweithredu modiwlau a ddewiswyd â dulliau gweithredu arolygon eraill, ac adolygu cwestiynau penodol rhag risgiau effeithiau modd, adolygu'r holiadur i nodi unrhyw orgyffwrdd, cynnig strwythur a oedd yn lleihau risgiau effeithiau cyd-destun, rhoi amcangyfrifon amserol a phrofi llif cyffredinol yr holiadur.
- Gan fod ailddylunio sylweddol yn cael ei wneud, nid yn unig i'r holiadur ond hefyd i'r arolwg cyfan ei hun, comisiynodd Lywodraeth Cymru gcontractwr Arolwg Cenedlaethol 2012-15, TNS BRMB i gynnal prawf maes ar raddfa fawr<sup>6</sup> rhwng mis Mai a mis Medi 2015. Cafodd y prawf maes ei ddylunio i roi amseriadau cwestiwn a holiadur mwy cywir, nodi problemau gyda'r holiadur, profi geirio amgen ar gyfer cwestiynau penodol, profi deunyddiau gwaith maes, a chael adborth gan ymatebwyr. Defnyddiwyd y prawf maes hefyd fel cyfle i gynnal arbrofion ar elfennau penodol o'r dyluniad, megis defnyddio cymhellion a diweddariad o fodiwl hunangwblhau cyfrifiadurol. Roedd y canfyddiadau o'r prawf maes hefyd yn rhoi arwydd o gyfradd ymateb debygol yr arolwg newydd, dadansoddiad hyddysg o achosion o ddiffyg parhad rhwng yr arolygon blaenorol a'r Arolwg Cenedlaethol newydd, ac yn rhoi effeithiau'r dyluniad ar fanwl gywirdeb amcangyfrifon yr arolwg newydd.
- Cynhaliwyd gwaith sylweddol pellach ar ddatblygu'r holiadur ochr yn ochr â'r prawf maes ar raddfa fawr ac yn ei sgil, er mwyn sicrhau bod yr holiadur ar gyfer 2016-17 yn diwallu anghenion polisiâu newydd.
- Ym mis Medi 2015 comisiynwyd SYG gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr arolwg o 2016 i 2021 (gyda'r opsiwn o estyniad am flwyddyn arall). Cyn dechrau'r gwaith

<sup>5</sup> Ardenne J., McManus S., Doyle M., Adolygiad o'r holiadur drafft ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016 ymlaen, Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 21/2015

<sup>6</sup> Hanson T., Sullivan S., *Prawf Maes Arolwg Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Technegol*, Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 19/2016

maes ym mis Mawrth 2016, sefydlwyd yr arolwg ar systemau SYG. Fel rhan o hynny cafodd yr holiadur ei raglennu i mewn i'r feddalwedd berthnasol y mae SYG yn ei defnyddio i gynnal cyfweiliadau â phobl drwy gymorth cyfrifiadur (CAPI) a hunangyfweld (CASI) (gweler Pennod 4), cafodd deunyddiau maes yr arolwg eu datblygu ymhellach (gweler Pennod 5), cafodd cyfwelwyr eu recriwtio a'u briffio (gweler Pennod 5) a chafodd arolwg maes peilot ar raddfa fach ei gynnal ym mis Ionawr/Chwefror 2016. Prif ddiben yr arolwg peilot oedd profi'r arolwg ar systemau SYG ond hefyd rhoddodd amseriadau holiadur ychwanegol. Nododd yr adroddiad ar yr arolwg peilot<sup>7</sup> argymhellion ar gyfer gwella'r holiadur a deunyddiau'r arolwg ymhellach, a roddwyd ar waith cyn i'r arolwg gael ei lansio ar ddiwedd mis Mawrth 2016.

## **Datblygu'r arolwg - mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017**

### *Arbrawf cymhelliant*

- 2.4 Asesodd y prawf maes ar raddfa fawr effaith cymhelliant amodol o £10 a chanfu gynnydd ystadegol arwyddocaol cadarnhaol ar gyfraddau ymateb (dros 4 pwynt canrannol) i ymatebwyr y cynigiwyd cymhelliant iddynt.<sup>8</sup> Cyn penderfynu a fyddai cymhelliant yn cael ei gyflwyno fel mater o reol ar yr Arolwg Cenedlaethol, ac os felly faint o gymhelliant y dylid ei gynnig, cynhaliwyd ail arbrawf sampl holltedig ar y prif arolwg rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2016 er mwyn profi effaith cymhelliant amodol o £5.
- 2.5 Sefydlwyd yr arbrawf fel y cafodd pob cyfeiriad ag odrif cwota<sup>9</sup> gynnig cymhelliant yn y llythyr ymlaen llaw, ac na chafodd cyfeiriadau ag eilrif cwota gynnig o'r fath. Drwy hyn sicrhawyd nad oedd amodau'r arbrawf yn cael eu drysu â ffactorau eraill, megis gallu'r cyfwelydd neu'r ardal ddaearyddol. Gofynnwyd i ymatebwyr yn y grŵp arbrolfol am eu manylion cyswllt ar ddiwedd y cyfweiliad er mwyn anfon taleb o £5 atynt o fewn ychydig wythnosau i'r cyfweiliad, naill ai drwy e-bost neu'r post, yn dibynnu ar ddymuniad yr ymatebydd. Gallai'r talebau gael eu defnyddio mewn nifer o siopau'r stryd fawr neu ar-lein.

<sup>7</sup>Tîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol Cymru SYG, *Arolwg Cenedlaethol Cymru - 2016 Prawf peilot: Crynodeb Gweithredol*, Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 55/2016

<sup>8</sup> Hanson T., Sullivan S., [Prawf Maes Arolwg Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Technegol](#), Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 19/2016, t.83

<sup>9</sup>Roedd pob cwota yn cynnwys rhwng 20 a 30 o gyfeiriadau ar gyfartaledd.



- 2.6 Bwriadwyd cynnal yr arbrawf hyd at fis Rhagfyr 2016 yn wreiddiol ond gan fod y cyfraddau ymateb yn is na'r disgwyl, penderfynwyd dod â'r arbrawf i ben ar ddiwedd mis Hydref 2016. Er mwyn helpu i roi hwb i'r ymateb, cyflwynwyd cymhelliant amodol o £10 wedyn i gymryd rhan ar gyfer y sampl lawn o fis Tachwedd 2016 ymlaen. Cynigiwyd y cymhelliant i bob aelwyd yn y llythyr ymlaen llaw a dderbyniwyd cyn bod cyfwelydd yn ymweld â'r cyfeiriad a ddewiswyd. Byddai'r ymatebydd yn cael y cymhelliant ar ffurf taleb mewn ychydig wythnosau ar ôl cwblhau'r cyfweliad.
- 2.7 Am fod yr arbrawf wedi dod i ben yn gynnar, roedd maint sampl yr arbrawf yn cynnwys 7,071 o aelwydydd ar gyfer y ddau amod. Er mwyn canfod gwahaniaeth arwyddocaol yn yr ymateb o tua thri phwynt canrannol, byddai wedi bod angen maint sampl effeithiol o tua 8,600 o achosion i gyd. Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaeth bach yn yr ymateb a ganfuwyd yn yr arbrawf hwn (h.y. 1.5 pwynt canrannol), mae maint y sampl yn rhy fach i roi canlyniadau ystadegol arwyddocaol. Fodd bynnag, gall y data a gasglwyd ar gyfer yr arbrawf hwn gael eu defnyddio ar gyfer ymchwil bellach i'r mater hwn.
- 2.8 Dengys Tabl 2.1 ffigurau'r gwaith maes cymaradwy ar gyfer y grŵp arbrofi a'r grŵp rheoli. Ymddengys mai effaith fach iawn, os o gwbl, a gafodd y cymhelliant ar gyfraddau ymateb. Er bod yr ymateb tua 1.5 pwynt canrannol yn uwch ar gyfer y grŵp arbrofi o'i gymharu â'r grŵp rheoli, nid yw'r gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol. Nododd dadansoddiad ymhellach amrywiadau yn yr ymateb yn ôl ALI yn ogystal ag yn ôl mis wrth gymharu'r grŵp rheoli â'r grŵp arbrofi.

**Tabl 2.1: Cymharu ymateb yr arbrawf cymhelliant**

| Grŵp            | Cyfeiriadau | Anghymwys | Cyfweliadau | Cyfradd gysylltu | Cyfradd gydweithredu | Cyfradd ymateb |
|-----------------|-------------|-----------|-------------|------------------|----------------------|----------------|
| Cymhelliant     | 3,604       | 378       | 1,772       | 91.6%            | 60.0%                | 54.9%          |
| Dim Cymhelliant | 3,467       | 353       | 1,664       | 91.8%            | 58.2%                | 53.4%          |

### 3. Samplu

#### Dyluniad y sampl

- 3.1 Mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi'i ddylunio i fod yn gynrychioliadol o'r holl oedolion 16 oed neu'n hŷn sy'n byw mewn cartrefi preifat yng Nghymru. Felly, mae'r sampl flynyddol wedi'i sefydlu fel hapddewisiad un cam wedi'i haenu o gyfeiriadau ledled Cymru.
- 3.2 Daeth y sampl o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol <sup>10</sup>, a chafodd pob cyfeiriad preswyl a math o annedd eu cynnwys yn y broses dewis sampl cyhyd a'u bod wedi'u rhestru fel cyfeiriadau unigol.<sup>11</sup> Os oeddent wedi'u cynnwys fel cyfeiriadau unigol ar y PAF, cafodd cartrefi parciau preswyl ac anheddau eraill eu cynnwys yn y ffrâm samplu.
- 3.3 Cafodd y sampl ei haenu yn ôl ALI gan ddefnyddio dyraniad gyda'r nod o sicrhau isafswm maint sampl effeithiol ym mhob ALI, yn seiliedig ar y gyfradd ymateb amcangyfrifedig (250 ym mhob ALI ac eithrio Powys, lle cafwyd isafswm maint sampl effeithiol o 750 er mwyn rhoi amcangyfrifon digon manwl ar lefel y bwrdd iechyd lleol).<sup>12</sup> Ystyriwyd dwysedd a maint y boblogaeth ar lefel ALI wrth dynnu'r sampl, ond cafodd rhai ardaloedd (e.e. ALLau bach) eu gorsamplu er mwyn sicrhau samplau a oedd yn ddigon mawr i roi amcangyfrifon cadarn.
- 3.4 Cafodd y sampl ei dyrannu ar y dechrau drwy ddefnyddio dyraniad cymesur, sy'n golygu bod maint y sampl ym mhob ALI yn gymesur â maint yn seiliedig ar nifer y cyfeiriadau yn yr ALI hwnnw. Er mwyn sicrhau'r isafswm maint sampl effeithiol ym mhob ALI, yna cafodd y dyraniad ei addasu fel a ganlyn:
- a) Nodwyd yr ALLau lle roedd yr isafswm maint sampl effeithiol yn annhebygol o gael ei sicrhau.
  - b) Yn yr ALLau hynny, pennwyd maint y sampl i'r isafswm hwn a dyrannwyd gweddill y sampl â thebygolrwydd a oedd yn gymesur â maint.

<sup>10</sup> Gweler <https://licensing-centre.poweredbypaf.com/>

<sup>11</sup> Mae cyfeiriadau preswyl yn golygu aelwydydd preifat ledled Cymru. Nid ydynt yn cynnwys llety sefydliadol (e.e. cartrefi gofal, neuaddau preswyl, carchardai, gwestai a llety gwely a brecwast, a chanolfannau'r fyddin). Ni chaiff pobl mewn llety sefydliadol eu cynnwys mewn arolygon cymdeithasol fel arfer.

<sup>12</sup> Mae'n rhaid ystyried natur gymhleth dyluniad y sampl wrth gyfrifo'r amrediad posibl o wallau samplu. Caiff effaith y dyluniad ei gynrychioli'n aml gan yr ystadegyn 'effaith dyluniad'. Er enghraifft, mae effaith dyluniad o 1.3 yn nodi y dylai maint y sampl wirioneddol gael ei rannu â 1.3 er mwyn *maint sampl* ystadegol *effeithiol*. Maint sampl ystadegol effeithiol yw maint sampl ar hap syml cyfatebol a fyddai'n arwain at wallau samplu o'r un maint. Mae effaith y dyluniad yn amrywio ar gyfer pob mesur yn yr arolwg.

c) Cynhaliwyd cam (a) a (b) yn iteraidd nes bod yr isafswm maint sampl effeithiol wedi'i sicrhau ar gyfer pob ALI.

- 3.5 Yr ALLau a gafodd eu gorsamplu yn y ffordd hon oedd Ynys Môn, Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Sir Benfro, a Thorfaen.
- 3.6 O fewn pob aelwyd a samplwyd, ceisiwyd cynnal cyfweiliad unigol ag un oedolyn 16 oed neu'n hŷn. Lle roedd aelwyd yn cynnwys mwy nag un oedolyn (16 oed a hŷn), dewiswyd un oedolyn ar hap.

### **Dewis cyfeiriadau (gan gynnwys sampl wrth gefn)**

- 3.7 Dewiswyd 21,082 o gyfeiriadau ar gyfer y brif sampl, wedi'i haenu yn ôl ALI (gweler yr adran flaenorol). Er mwyn dewis cyfeiriadau i'w cynnwys yn yr arolwg, trefnwyd y PAF yn ôl cod post a dewiswyd sampl systematig<sup>13</sup> o gyfeiriadau o bob ALI gan ddefnyddio maint y sampl a gyfrifwyd ym mhob ALI. Cafodd cyfeiriadau a samplwyd o fewn y pedair blynedd ddiwethaf ar gyfer unrhyw un o arolygon cymdeithasol SYG neu ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2012-15 eu hepgor drwy ddefnyddio Ffeil Cyfeiriadau a Ddefnyddiwyd yn Arolygon Cymdeithasol SYG, sef rhestr o gyfeiriadau a samplwyd ar gyfer arolygon cymdeithasol a gynhelir gan SYG. Roedd cyfeiriadau a ddewiswyd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru (2012-15) eu cynnwys ar y Ffeil o Gyfeiriadau a Ddefnyddiwyd hefyd ac ni chânt eu hailddewis ar gyfer yr arolwg am bedair blynedd ar ôl iddynt gael eu samplu'n wreiddiol.<sup>14</sup>
- 3.8 Cafodd ail sampl a oedd yn hafal i'r brif sampl, ei thynnu, a hefyd ei haenu yn ôl ALI, drwy'r dull a amlinellwyd uchod, er yn annibynnol ar y brif sampl. O ystyried yr ansicrwydd ynglŷn ag amrywiadau yn yr ymateb a'r gyfradd gymhwyso, dewiswyd y sampl wrth gefn hon er mwyn rhoi sampl ar gyfer arolwg peilot 2016 ac amgylchiadau eraill, er enghraifft lle mae angen achosion ychwanegol i sicrhau nifer y cyfweiliadau sydd ei hangen (gweler adran 3.10). Gan nad oedd yn hysbys ar adeg tynnu'r sampl wrth gefn ym mha ardal y gallai fod angen achosion ychwanegol, tynnwyd sampl o faint hafal er mwyn rhoi cyfle i ychwanegu at y sampl ar unrhyw adeg benodol ac mewn unrhyw ardal ofynnol. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach o'r sampl wrth gefn gyffredinol a fyddai byth yn cael ei defnyddio.

<sup>13</sup> Caiff cyfeiriadau eu trefnu yn ôl cod post, yna caiff man dechrau yn y rhestr hon ei ddewis ar hap a chaiff pob fed cyfeiriad ei ddewis (yn dibynnu ar y gyfran sydd ei hagen ym mhob ALI).

<sup>14</sup> Mae'r union gyfnod ar gyfer atal cyfeiriadau rhag cael eu hailddewis yn amrywio o arolwg i arolwg.

**Tabl 3.1: Nifer y cyfeiriadau a gynhwyswyd yn brif sampl yn ôl ALI**

| <b>Awdurdod lleol</b>    | <b>Maint y sampl a ddyroddwyd</b> |
|--------------------------|-----------------------------------|
| Ynys Môn                 | 794                               |
| Blaenau Gwent            | 760                               |
| Pen-y-bont ar Ogwr       | 718                               |
| Caerffili                | 870                               |
| Caerdydd                 | 1,759                             |
| Sir Gaerfyrddin          | 1,104                             |
| Ceredigion               | 805                               |
| Conwy                    | 765                               |
| Sir Ddinbych             | 739                               |
| Sir y Fflint             | 845                               |
| Gwynedd                  | 889                               |
| Merthyr Tudful           | 721                               |
| Sir Fynwy                | 580                               |
| Castell-nedd Port Talbot | 785                               |
| Casnewydd                | 780                               |
| Sir Benfro               | 925                               |
| Powys                    | 2,379                             |
| Rhondda Cynon Taf        | 1,308                             |
| Abertawe                 | 1,477                             |
| Torfaen                  | 748                               |
| Bro Morgannwg            | 596                               |
| Wrecsam                  | 735                               |
| <b>Cyfanswm</b>          | <b>21,082</b>                     |

- 3.9 Dyroddwyd y brif sampl lawn ar gyfer 2016-2017 (Tabl 3.1) drwy gydol blwyddyn yr arolwg. Fodd bynnag, gan fod yr ymateb i'r arolwg yn is mewn rhai ALLau na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol (gweler adran 5), cytunwyd rhwng SYG a Llywodraeth Cymru i ddyroddi cyfran o'r sampl wrth gefn yn chwarter 4, er mwyn sicrhau'r isafswm maint sampl effeithiol ymhob ALI. Felly dyroddwyd 659 o achosion o'r sampl wrth gefn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017.
- 3.10 Amcangyfrifwyd nifer yr achosion ychwanegol i'w dyroddi drwy Fethodoleg SYG. Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon hyn penderfynwyd bod angen cwtâu ychwanegol yn yr ALLau canlynol:
- Blaenau Gwent
  - Merthyr Tudful

- Sir Fynwy
- Bro Morgannwg

3.11 Ar gyfer yr ALLau, cytunwyd i ychwanegu at y cwtâu presennol drwy ychwanegu nifer o gyfeiriadau i'w cwtâu a neilltuwyd eisoes. Ar gyfer tri ALI, tybiwyd bod nifer y cyfweiliadau a sicrhawyd yn ddigon fel nad oedd angen dyroddi unrhyw ran o'r sampl wrth gefn, sef:

- Gwynedd
- Sir Benfro
- Powys

3.12 Mae Tabl 3.2 yn rhoi trosolwg o gyfanswm y sampl wrth gefn fisol a ddyroddwyd a'r sampl wrth gefn fisol gyfartalog a ddyroddwyd yn y chwarter olaf yn ogystal â nifer y cwtâu roedd y rhai yn eu cynnwys.

**Tabl 3.2: Cwtâu sampl wrth gefn yn ôl ALI**

| Awdurdod lleol           | Maint y sampl wrth gefn a ddyroddwyd | Maint y sampl wrth gefn gyfartalog a ddyroddwyd y mis | Nifer y cwtâu wrth gefn llawn yr oedd eu hangen | Nifer y cyfeiriadau wrth gefn unigol yr oedd eu hangen yn ychwanegol at y cwtâu wrth gefn |
|--------------------------|--------------------------------------|-------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|
| Ynys Môn                 | 2                                    | 1                                                     | 0                                               | 2                                                                                         |
| Blaenau Gwent            | 109                                  | 36                                                    | 4                                               | 19                                                                                        |
| Pen-y-bont ar Ogwr       | 20                                   | 7                                                     | 0                                               | 20                                                                                        |
| Caerffili                | 42                                   | 14                                                    | 0                                               | 42                                                                                        |
| Caerdydd                 | 8                                    | 3                                                     | 0                                               | 8                                                                                         |
| Sir Gaerfyrddin          | 4                                    | 1                                                     | 0                                               | 4                                                                                         |
| Ceredigion               | 2                                    | 1                                                     | 0                                               | 2                                                                                         |
| Conwy                    | 15                                   | 5                                                     | 0                                               | 15                                                                                        |
| Sir Ddinbych             | 2                                    | 1                                                     | 0                                               | 2                                                                                         |
| Sir y Fflint             | 3                                    | 1                                                     | 0                                               | 3                                                                                         |
| Gwynedd                  | 0                                    | 0                                                     | 0                                               | 0                                                                                         |
| Merthyr Tudful           | 59                                   | 20                                                    | 2                                               | 1                                                                                         |
| Sir Fynwy                | 126                                  | 42                                                    | 5                                               | 8                                                                                         |
| Castell-nedd Port Talbot | 30                                   | 10                                                    | 0                                               | 30                                                                                        |
| Casnewydd                | 72                                   | 24                                                    | 0                                               | 72                                                                                        |
| Sir Benfro               | 0                                    | 0                                                     | 0                                               | 0                                                                                         |
| Powys                    | 0                                    | 0                                                     | 0                                               | 0                                                                                         |
| Rhondda Cynon Taf        | 6                                    | 2                                                     | 0                                               | 6                                                                                         |
| Abertawe                 | 6                                    | 2                                                     | 0                                               | 6                                                                                         |
| Torfaen                  | 33                                   | 11                                                    | 0                                               | 33                                                                                        |
| Bro Morgannwg            | 117                                  | 39                                                    | 4                                               | 16                                                                                        |
| Wrecsam                  | 3                                    | 1                                                     | 0                                               | 3                                                                                         |
| <b>Cyfanswm</b>          | <b>659</b>                           | <b>220</b>                                            | <b>15</b>                                       | <b>299</b>                                                                                |

- 3.13 Ym Mhowys, Sir Benfro ac Ynys Môn, dilëwyd un cwota o gyfeiriadau ym mhob sampl. Llywiwyd y penderfyniad i ddileu cwotâu o'r ardaloedd hyn gan nifer y cyfweiliadau a sicrhawyd rhwng chwarter 1 a chwarter 3, oherwydd amcangyfrifwyd y byddai sampl lai yn chwarter 4 yn ddigonol i sicrhau nifer y cyfweiliadau yr oedd ei hangen.
- 3.14 Mae Tabl 3.3 yn rhoi trosolwg o'r sampl a ddyroddwyd fesul mis calendr, gan gynnwys y sampl wrth gefn a ddyroddwyd yn ystod chwarter 4.

**Tabl 3.3: Sampl a ddyroddwyd yn ôl mis**

| Mis             | Cyfeiriadau (prif sampl) | Cyfeiriadau a ddilëwyd yn y brif sampl | Cyfeiriadau ychwanegol (sampl wrth gefn) | Cyfeiriadau a ddyroddwyd (gyda'r sampl wrth gefn) |
|-----------------|--------------------------|----------------------------------------|------------------------------------------|---------------------------------------------------|
| Ebrill 2016     | 1,732                    | 0                                      | 0                                        | 1,732                                             |
| Mai 2016        | 1,747                    | 0                                      | 0                                        | 1,747                                             |
| Mehefin 2016    | 1,773                    | 0                                      | 0                                        | 1,773                                             |
| Gorffennaf 2016 | 1,754                    | 0                                      | 0                                        | 1,754                                             |
| Awst 2016       | 1,800                    | 0                                      | 0                                        | 1,800                                             |
| Medi 2016       | 1,739                    | 0                                      | 0                                        | 1,739                                             |
| Hydref 2016     | 1,778                    | 0                                      | 0                                        | 1,778                                             |
| Tachwedd 2016   | 1,709                    | 0                                      | 0                                        | 1,709                                             |
| Rhagfyr 2016    | 1,758                    | 0                                      | 0                                        | 1,758                                             |
| Ionawr 2017     | 1,776                    | -24                                    | 210                                      | 1,962                                             |
| Chwefror 2017   | 1,780                    | -25                                    | 228                                      | 1,983                                             |
| Mawrth 2017     | 1,736                    | -25                                    | 221                                      | 1,932                                             |
| <b>Cyfanswm</b> | <b>21,082</b>            | <b>-74</b>                             | <b>659</b>                               | <b>21,667</b>                                     |

### Trefnu'r Sampl yn sypiau a'u dyrannu

- 3.15 Cafodd prif sampl 2016-2017 ei rhannu'n gwtâu (clystyrau o gyfeiriadau) ac yna eu dyrannu yn ôl misoedd. Cafodd y cwotâu eu dyrannu'n seiliedig ar eu sgôr cyfartalog o dan MALIC<sup>15</sup> gan sicrhau bod cymysgedd o gwtâu sgorio uchel, isel a chanolig yn ystod pob chwarter ar gyfer pob ALI. Tybiwyd y byddai'r dosbarthiad ar draws ALIau a sgoriau MALIC yn sicrhau bod y sampl chwarterol yn gynrychioliadol o'r boblogaeth. Gan na chaiff pob ardal ei chwmpasu ym mhob chwarter, caiff y sampl chwarterol ei chlystyru.

<sup>15</sup> Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- 3.16 Cafodd y cwotâu hyn eu dyrannu gan Reolwyr Cyfwelwyr i Gyfwelwyr Maes a fyddai wedyn yn gweithio i sicrhau ymateb gan y cyfeiriadau hyn a ddyroddwyd yn ystod y mis.
- 3.17 Roedd maint y cwotâu yn amrywio rhwng 20 a 30 o achosion ar gyfartaledd. Y cwota mwyaf a ddyrannwyd yn 2016-17 oedd 39 o achosion. Roedd nifer y cyfeiriadau a ddyrannwyd y mis o'r brif sampl yn amrywio rhwng 1,709 (Tachwedd 2016) a 1,800 (Awst 2016).
- 3.18 Cafodd rhai cyfeiriadau, na chawsant ganlyniad llwyddiannus yn ystod mis yr arolwg, ond yr aseswyd bod tebygolrwydd rhesymol o hyd o sicrhau cyfweliad, yn seiliedig ar eu canlyniad a nodiadau'r cyfwelydd, eu haillddyroddi i Gyfwelwyr Maes y mis dilynol. Roedd yr asesiad hwn yn ystyried y canlyniad yn y prif arolwg, gan gynnwys achosion lle na chafwyd cyswllt a phenderfyniadau i wrthod oherwydd amgylchiadau (e.e. ar wyliau, neu'n sâl ar y pryd), a gwybodaeth a ddarparwyd gan gyfwelydd y prif arolwg ar y tebygolrwydd o lwyddiant pe bai'r achos yn cael ei ailldyrannu.
- 3.19 Ymarfer arferol SYG ar gyfer arolygon cymdeithasol yw bod achosion a ailldyroddir yn cael eu dyrannu ar gyfer cynnig arall tua thair wythnos ar ôl diwedd mis yr arolwg, yn ddelfrydol gan yr un cyfwelydd. Fodd bynnag, gan fod yn rhaid i ystyriaethau eraill, megis argaeledd gweithlu maes, gael eu hystyried, mae'n bosibl y bydd cyfwelydd gwahanol yn ymdrin ag achos a ailldyrannwyd. O dan rai amgylchiadau, ac yn ôl disgrisiwn rheolwyr cyfwelwyr, gellir ailldyroddi achosion i gyfwelydd gwahanol neu gyfwelydd mwy profiadol. Yna rhoddir tua 10 diwrnod i gyfwelwyr geisio sicrhau cyfweliad cyn dychwelyd eu gwaith achosion i'w ailldyroddi i'r pencadlys.
- 3.20 Gan fod yr arolwg yn dal i ymsefydlu yn ystod chwarter cyntaf gwaith maes 2016-2017, cytunwyd y byddid yn ymdrin â dyrannu achosion a ddyroddwyd mewn ffordd fwy hyblyg. Cafodd cyfeiriadau y nodwyd eu bod yn gymwys i'w hailldyroddi rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2016 eu dyrannu ar amrywiol adegau yn ystod chwarter 2 a chwarter 3 yn ôl disgrisiwn rheolwyr cyfwelwyr. Rhoddwyd mwy o amser i gyfwelwyr geisio cael cyfweliadau ar gyfer yr achosion hyn hefyd.
- 3.21 O chwarter 4 ymlaen, dychwelodd y weithdrefn ailldyrannu i arfer safonol SYG.

### **Dewis anheddau, aelwydydd ac unigolion**

- 3.22 O dan amgylchiadau pan ddaeth cyfwelydd ar draws mwy nag un annedd (e.e. bloc o fflatiau) neu fwy nag un aelwyd (e.e. dwy fflat un gwely neu fwy) mewn cyfeiriad a samplwyd, dewiswyd un annedd/aelwyd ar hap gan ddefnyddio Grid Kish<sup>16</sup>. Cafodd cyfwelwyr gyfarwyddyd i hysbysu'r pencadlys o dan amgylchiadau o'r fath er mwyn i'r pencadlys ddiweddarau cofrestr y sampl (yn achos cyfeiriadau lluosog) a hefyd roi cymorth, yn ôl yr angen, pan nad oedd yn glir sut y dylid dewis ar hap (e.e. lle nad oedd fflatiau nac unedau aelwydydd wedi'u rhifo).
- 3.23 O fewn yr aelwyd a samplwyd, cyfwelwyd un oedolyn (16 oed a hŷn) ar gyfer yr arolwg. Os oedd mwy nag un person 16 oed a hŷn yn byw yn y cyfeiriad, dewiswyd ymatebydd ar hap, gan ddefnyddio Grid Kish unwaith eto.
- 3.24 Er mwyn dewis yr unigolyn gan ddefnyddio Grid Kish, cafodd cyfwelwyr gyfarwyddyd i holi'r aelod a oedd yn ymateb am oedran pob aelod o'r aelwyd (16 oed a hŷn) a'u rhoi yn eu trefn o'r hynaf i'r ieuangaf. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, a rhif y cyfeiriad a ddyrannwyd ar gyfer y cyfeiriad o fewn y cwota, byddai Grid Kish yn nodi pa breswilydd oedd yn gymwys i fod yn gyfwelai.
- 3.25 Er enghraifft, os mai 4 oedd rhif y cyfeiriad yn y cwota, a bod tri unigolyn 16 oed neu'n hŷn yn byw yn y cyfeiriad, mae'r haprif a ddaw o Grid Kish yn nodi mai'r preswilydd hynaf ond un (2) a gâi ei ddewis fel ymatebydd (gweler Atodiad A).

---

<sup>16</sup> Tabl o rifau ar hap yw Grid Kish, a ddefnyddir i ddewis aelodau o fewn aelwyd ar hap, neu unedau preswyl o fewn annedd.



## 4. Cynnwys a datblygiad yr holiadur

### Trosolwg o'r holiadur

- 4.1 Mae dyluniad yr arolwg yn seiliedig ar un holiadur a roddir i un oedolyn 16 oed neu'n hŷn a ddewisir ar hap ym mhob aelwyd sy'n cael ei samplu. Datblygwyd cynnwys yr holiadur gan Lywodraeth Cymru a'r tri chorff a noddir ganddi. Cynhaliwyd arolwg cychwynnol gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol cyn dechrau'r prawf maes ar raddfa fawr.<sup>17</sup> Mae'r [holiadur](#) yn cwmpasu nifer o bynciau gwahanol, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, llesiant, iechyd personol, y celfyddydau, chwaraeon a hamdden awyr agored. Ceir rhestr lawn o'r modiwlau a oedd wedi'u cynnwys yn yr holiadur terfynol, a disgrifiad byr o'r math o gwestiynau a oedd wedi'u cynnwys ym mhob un, yn ddiweddarach yn yr adran hon.
- 4.2 Cynhaliwyd arolwg peilot ar raddfa fach gan SYG rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2016 er mwyn profi bod yr holiadur yn gweithio'n dda, yn ogystal â phrofi prosesau gwaith maes.

### Cynnwys a datblygiad yr holiadur

- 4.3 Daw'r cwestiynau ar gyfer Arolwg Cenedlaethol newydd yn bennaf o'r pum arolwg blaenorol, gyda rhai cwestiynau hefyd yn dod o arolygon eraill ar raddfa fawr. Llywiwyd y rhan fwyaf o'r newidiadau i'r holiadur gan ganlyniad y prawf ar raddfa fawr. Fodd bynnag, cafodd nifer o gwestiynau newydd a meysydd pwnc eu hychwanegu neu eu dileu yn seiliedig ar anghenion polisi newydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi.

#### Prawf sampl holltedig ar gyfer cwestiynau arbrofol

- 4.4 Profwyd cyfres o gwestiynau arbrofol yn ystod blwyddyn arolwg 16/17 fel rhan o'r modiwl ar yfed alcohol. Yn y cwestiynau ynglŷn ag yfed alcohol a ddefnyddiwyd o'r blaen, a ddaw o Arolwg Iechyd Lloegr, gofynnwyd i ymatebwyr nodi faint o fath penodol o alcohol roeddent yn ei yfed fel arfer, ac wedyn cafwyd cyfarwyddyd yn rhestru'r mathau gwahanol o'r ddiod alcoholig berthnasol. Ceisiodd y cwestiynau arbrofol symleiddio'r cwestiynau hyn drwy gyfuno geiriad y cwestiwn a'r cyfarwyddyd mewn un frawddeg, gan leihau hyd y cwestiynau hyn. Cafodd

---

<sup>17</sup> Cafodd manylion llawn adolygiad y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol eu casglu ynghyd mewn adroddiad y gellir ei weld drwy wefan Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150327-draftquestionnaire-review-national-survey-2016-onwards-cy.pdf>

dangosydd is-samplu ei raglennu i mewn i sgript yr holiadur gyda'r nod o ddewis un o bob chwe ymatebydd ar hap y byddid yn gofyn y cwestiynau arbrofol iddynt, gyda'r cwestiynau gwreiddiol yn cael eu gofyn i weddill yr ymatebwyr. Bydd canlyniadau'r cwestiynau arbrofol a'r cwestiynau gwreiddiol yn llywio'r ffordd y caiff holiadur arolwg 17/18 ei ddylunio.

#### Modiwlau hunangwblhau

- 4.5 Trefnwyd bod tua 90% o'r cyfweliad yn cael ei gynnal drwy CAPI a weinyddir gan y cyfwelydd. Roedd y 10% arall yn cael ei gynnal drwy hunangwblhau gan yr ymatebydd gan ddefnyddio gliniadur y cyfwelydd (CASI). Cynhaliwyd arbrawf sampl holltedig fel rhan o'r prawf maes ar raddfa fawr i asesu ymddygiad ymatebwyr wrth ateb rhai cwestiynau sensitif drwy ddull CASI o gymharu â CAPI. Nododd canlyniad yr arbrawf hwn fod y gyfradd gydsynio i ddull CASI, sef tua 75%, o gymharu ag arolygon eraill (e.e. Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 90%) yn gymharol isel. Roedd grwpiau oedran hŷn yn enwedig yn llai tebygol o gytuno i gwblhau'r rhan hon o'r holiadur eu hunain.<sup>18</sup>
- 4.6 Ystyriwyd canfyddiadau'r prawf maes ar raddfa fawr wrth lunio'r adran CASI yn derfynol ar gyfer holiadur Arolwg Cenedlaethol 2016-17. Dim ond y cwestiynau a ystyriwyd fel y rhai mwyaf sensitif (e.e. Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol) a gynhwyswyd yn y modiwl CASI.
- 4.7 Ar ddechrau'r modiwl, byddai'r cyfwelydd yn darllen cwestiwn yn gofyn am gydsyniad i'r ymatebydd hunangwblhau'r gyfres ganlynol o gwestiynau. Os rhoddwyd cydsyniad, roedd y gliniadur yn cael ei drosglwyddo i'r ymatebydd ac yna gofynnwyd iddo gwblhau nifer o gwestiynau ymarfer i ymgylfarwyddo â'r ffordd y dylid mewnbynnu data. Yna gofynnwyd y cwestiynau CASI gwirioneddol. Ar ddiwedd y modiwl, gofynnwyd i'r ymatebydd orffen modiwl CASI, ac yna byddai'r ymatebion yn cael eu cloi'n awtomatig am resymau cyfrinachedd fel na allai'r cyfwelydd eu gweld, a throsglwyddo'r gliniadur i'r cyfwelydd.
- 4.8 Mewn achosion lle nad oedd yr ymatebydd yn cydsynio i fewnbynnu ei atebion, byddai'r cyfwelydd yn cynnig cynnal y modiwl drwy ddull CAPI, lle y byddai'r sgript yn hepgor cwestiynau'r prawf. Roedd yr ymatebydd yn cael gwrthod ymateb i fodiwl CASI yn gyfan gwbl hefyd. Yn ystod blwyddyn gwaith maes 2016-2017, cwblhaodd 73% o ymatebwyr y modiwl drwy ddull CASI, gyda 18% y cytuno i'w gwblhau drwy

---

<sup>18</sup> Hanson T., Sullivan S., *National Survey for Wales Field Test, Technical Report*, Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 19/2016, t. 80

ddull CAPI gyda chymorth y cyfwelydd, a 9% yn gwrthod cwblhau'r adran hon drwy unrhyw ddull.

- 4.9 Roedd modiwl CASI wedi'i osod yn union ar ôl adran CAPI, gyda'r cwestiynau ynglŷn â chydsynio ac ailgysylltu yn cael eu gosod ar ddiwedd y cyfweiliad er mwyn gwella llif yr holiadur.

#### *Cyflwyno modiwl omnibws holiadur*

- 4.10 Ym mis Ebrill 2018, yn ôl y bwriad bydd Llywodraeth Cymru yn cael pwerau datganoledig dros drethi penodol (y Dreth Stamp a'r Dreth Tirlenwi) gyda chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Arweiniodd y newid hwn at angen polisi i ddeall ymwybyddiaeth y boblogaeth o ddatganoli trethi. Felly, ychwanegwyd cyfres newydd o gwestiynau fel modiwl omnibws ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn gyntaf yr arolwg (mis Hydref i fis Rhagfyr 2016) er mwyn cynnig llinell sylfaen ar gyfer ymwybyddiaeth o drethi ymhlith y boblogaeth yng Nghymru. Caiff yr un modiwl ei ychwanegu eto yn ail flwyddyn y gwaith maes er mwyn monitro ac asesu effaith strategaethau cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r polisi hwn.
- 4.11 Rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2016, profodd SYG y gyfres newydd o gwestiynau yn wybyddol. Nod yr ymarfer profi gwybyddol<sup>19</sup> oedd datblygu a phrofi cwestiynau ynglŷn â threthiant er mwyn llunio modiwl dichonadwy i'w gynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol, yn ogystal â chynnig amseriadau dangosol ar gyfer y modiwl. Cynhaliwyd 20 o gyfweiliadau ag oedolion 16 oed neu'n hŷn (mewn dwy don o 10 o gyfweiliadau er mwyn rhoi cyfle i newidiadau a wnaed i gwestiynau ar ôl y 10 cyfweiliad cyntaf gael eu profi unwaith eto).
- 4.12 Tra bod y modiwl omnibws a oedd yn cynnwys y cwestiynau ynglŷn ag ymwybyddiaeth o drethi yn rhedeg rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2016, arhosodd nifer fach o achosion a ailddyrannwyd ar gyfer rhai o'r misoedd arolwg hyn yn y maes tan fis Mawrth 2017.
- 4.13 Ceir rhagor o wybodaeth am gynnwys holiadur terfynol 16-17 a'r cefndir i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg ar wefan Llywodraeth Cymru<sup>20</sup>.

#### **Rhaglennu a phrofi'r holiadur**

- 4.14 Cafodd yr holiadur ei sgriptio gan SYG a'i weinyddu drwy ddefnyddio Statistics Netherlands Blaise Enterprise 4.8 ("Blaise").

<sup>19</sup> Palmer K., Rotaru V., Aubrey-Smith S., Arolwg Cenedlaethol Cymru – [Adroddiad ar brofi'r cwestiynau ymwybyddiaeth am drethi: Crynodeb Gweithredol](#), Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 54/2016

<sup>20</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/content-materials/materials-2016-17/?lang=cy>

- 4.15 Nododd Llywodraeth Cymru nifer o fodiwlau ar gyfer yr holiadur lle mai dim ond ar lefel genedlaethol, lefel bwrdd iechyd lleol, neu leol ranbarthol roedd angen amcangyfrifon arolwg. Felly, ni ofynnwyd rhai o fodiwlau'r holiadur i bob ymatebydd, a helpodd i sicrhau na fyddai cyfweiliadau yn fwy na thua 45 munud ar gyfartaledd. Cafodd adrannau perthnasol eu rhaglennu i'w gofyn i is-sampl yn unig o ymatebwyr a ddewiswyd ar hap, ac weithiau o fewn ardaloedd daearyddol penodol. Mae Atodiad B yn rhoi trosolwg o fodiwlau a is-samplwyd, maint y sampl flynyddol yr oedd ei angen, ac ystyriaethau daearyddol.
- 4.16 Wrth raglennu sgript yr holiadur yn Blaise, gwnaeth SYG gynnwys nifer o wiriadau meddal a chaled fel y byddai cyfwelwyr yn effro i achosion lle byddai cyfuniad o atebion yn annhebygol neu annichonadwy. Lle roedd cyfuniad o atebion yn annhebygol, gwnaeth gwiriad meddal dynnu sylw'r cyfwelydd at yr atebion a roddwyd a gofyn iddo/iddi gadarnhau'r ymateb cyn bwrw ymlaen - ond caniatawyd i'r cyfwelydd fwrw ymlaen os cadarnhawyd bod y wybodaeth hon yn gywir (e.e. mae'r cyfwelydd yn mewnbynnu dyddiad geni sy'n rhoi oedran o 120 mlynedd). Ysgogwyd gwiriad caled pan oedd yn amlwg nad oedd y cyfuniad o atebion a roddwyd yn bosibl (er enghraifft, mab/merch yn cael ei godio/chodio fel petai'n hŷn na'r fam/tad). Yn yr achosion hyn, ni allai'r cyfwelydd fwrw ymlaen â gweddill yr holiadur nes bod y wybodaeth hon wedi cael ei chywiro. Roedd y gwiriadau hyn yn sicrhau yr ymdrinnid ag anghysonderau yn y data ar y cam cyfweld, gan wella ansawdd y data.
- 4.17 Er mwyn sicrhau bod y sgript derfynol yn rhedeg yn esmwyth ac wedi'i gosod yn ôl y fanyleb, cynhaliwyd y gwiriadau canlynol gan SYG a Llywodraeth Cymru:
- **Testun cwestiynau** – ei fod yn gyson â manyleb yr holiadur drwyddi draw.
  - **Llwybro'r cwestiynau** – bod y sgript wedi'i rhaglennu yn unol â'r llwybrau a bennwyd – profwyd hyn drwy ddefnyddio nifer o senarios gwahanol o aelwyd ac ymateb.
  - **Rhifau/enwau'r cwestiynau** – bod y rhain yn gyson â rhifau/enwau ym manyleb yr holiadur lle y bo'n berthnasol.
  - **Arddangosiad sgrin** – bod y cwestiynau wedi'u fformatio yn unol â safon SYG a'u harddangos yn glir, gan osgoi unrhyw sgrolio diangen i gyfwelwyr.
  - **Rhestrau o ymatebion** – bod y rhain yn gyson â manyleb yr holiadur a'u bod wedi'u harddangos yn glir, gan osgoi unrhyw sgrolio diangen i gyfwelwyr.
  - **Cyfarwyddiadau i gyfwelwyr** – bod y rhain yn glir ac yn gyson â manyleb yr holiadur.

- **Cyfeiriadau at gardiau dangos** – bod y rhifau yn gyson â manyleb yr holiadur a'r set o gardiau dangos.
- **Testun-lenwi** – bod unrhyw gwestiynau neu destun o fewn cwestiynau yn cael eu harddangos yn gywir.
- **Gwiriadau CAPI** – bod yr holl wiriadau meddal a chaled yn y CAPI yn cael eu hysgogi lle y bo hynny'n gymwys.
- **Symudedd/dibynadwyedd y sgript** - bod y sgript yn galluogi cyfwelwyr i symud ymlaen (ac yn ôl, os oedd angen er mwyn diwygio'r wybodaeth a fewnbynwyd) heb golli data na gwallau eraill.
- **Dewis iaith** – bod yr adnodd casglu data yn galluogi cyfwelwyr i ddewis iaith ar ddechrau'r cyfweiliad a pharhau yn yr iaith hon, a thoglo rhwng Cymraeg a Saesneg yn ôl gofynion yr ymatebydd.
- **Cyfieithu** – bod yr holiadur yn llifo'n dda yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4.18 Yn ogystal â'r gwiriadau uchod, cynhaliodd SYG ymarfer 'gorlifo data' ar sgript derfynol y prif arolwg, a greodd nifer o ffug gyfweiliadau. Hwn oedd y gwiriad olaf bod holl lwybro'r holiadur, yn enwedig llwybro ar gyfer adrannau i'w his-samplu yn seiliedig ar ddewis ar hap, wedi'i osod yn ôl y fanyleb.

4.19 Hefyd, rhoddwyd set ddata SPSS<sup>21</sup> crai (.sav) yn seiliedig ar y 250 cyfweiliad cyntaf i Lywodraeth Cymru er mwyn gwirio amlderau ym mhob cwestiwn a ffracsiynau is-samplu. Defnyddiwyd y camau gwirio hyn i nodi problemau gyda sgript CAPI.

## Cardiau dangos

4.20 Datblygwyd dwy set o gardiau dangos, h.y. cymhorthion gweledol i ymatebwyr yn cynnig dewisiadau cwestiynau neu wybodaeth gyd-destunol (e.e. maint cyfrannau bwyd). Cafodd y "brif" set o gardiau dangos a oedd yn cynnwys cymhorthion ar gyfer cwestiynau penodol ei pharatoi ar ffurf llyfryn dwyieithog A4. Roedd ail set "graidd" yn cynnwys dwy restr sgorio gyffredin a oedd wedi'u cynnwys drwy'r holiadur cyfan. Cafodd y set graidd ei pharatoi mewn fformat dwyieithog A4 hefyd. Mae'r holl gardiau dangos ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.<sup>22</sup>

<sup>21</sup> Pecyn Ystadegol ar gyfer y Wyddor Gymdeithasol. IBM SPSS Statistics

<sup>22</sup> Mae'r holl gardiau dangos ar gael yn <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160817-national-survey-2016-17-showcards-ency.pdf>.


## **Cyfieithu i'r Gymraeg**

- 4.21 Darparodd Llywodraeth Cymru fanyleb holiadur a gyfieithwyd i'r Gymraeg. Y nod oedd paratoi fersiwn Gymraeg o'r holiadur a allai gael ei deall ym mhob rhan o Gymru. Rhoddwyd y fersiwn wedi'i chyfieithu i SYG unwaith bod y fanyleb ar gyfer y fersiwn Saesneg o'r holiadur yn derfynol. Lle roedd cwestiynau yn dod o arolygon dwyieithog blaenorol, defnyddiwyd cyfieithiadau sefydledig er cysondeb a pharhad. Ar gyfer unrhyw gwestiynau newydd neu ddiwygiedig, defnyddiodd Llywodraeth Cymru gyfieithwyr ardystiedig, gan sicrhau bod yr un termau yn cael eu defnyddio drwy'r holiadur cyfan. Roedd timau ymchwil SYG a Llywodraeth Cymru yn gallu cysylltu â siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau ansawdd y cyfieithiad, yn ogystal â chyflwyno mân esboniadau a newidiadau.
- 4.22 Defnyddiodd SYG fanyleb yr holiadur Saesneg er mwyn gosod llwybro'r holiadur. Cafodd y testun Cymraeg ei gynnwys yn ddiweddarach yn y dalfannau perthnasol yn y sgript, a chafodd addasiadau perthnasol eu gwneud i'r adrannau lle roed dangen gosod testun-lenwi er mwyn darparu ar gyfer gwahaniaethau gramadegol yn y Gymraeg. Profwyd y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg o'r CAPI yn annibynnol.
- 4.23 Codiodd cyfwelwyr ddewis iaith yr ymatebydd ar ddechrau'r cyfweiliad. Roedd rhaglen Biaise yn galluogi cyfwelwyr i doglo rhwng Cymraeg a Saesneg ar gyfer unrhyw gwestiwn ar unrhyw adeg drwy'r holiadur cyfan. Bwriadwyd i hyn helpu mewn sefyllfaoedd lle roedd ymatebwyr yn dewis cael eu cyfweld mewn un iaith ond roedd angen cyfieithiad ar unwaith o gwestiwn neu eiriad penodol am unrhyw beth y gallent fod wedi cael trafferth ei ddeall yn newis iaith y cyfweiliad.
- 4.24 Os oedd angen cynnal y cyfweiliad mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, roedd cyfwelwyr yn darllen y cwestiynau yn Saesneg ac roedd cyfieithydd yn eu cyfieithu. Byddai'r cyfieithydd naill ai'n aelod arall o aelwyd yr ymatebydd neu gallai'r cyfwelydd ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn er mwyn cwblhau'r cyfweiliad. Yn y sefyllfaoedd hyn ni ofynnwyd modiwlau penodol a ystyriwyd yn rhai sensitif er mwyn osgoi problemau ynglŷn â chyfrinachedd drwy ddatgelu gwybodaeth i drydydd person.
- 4.25 Cafodd yr holiadur ei gyfieithu gan un o gontractwyr Llywodraeth Cymru a chafodd y deunydd ymlaen llaw ei gyfieithu gan un o gontractwyr SYG. Cafodd mân newidiadau eu gwneud i'r holiadur neu'r deunyddiau ymlaen llaw gan dîm Llywodraeth Cymru a thîm SYG.

## Amseriadau cyfweliadau


- 4.26 Cafodd nifer o bwyntiau amseru eu cynnwys yn yr holiadur er mwyn mesur hyd pob adran. Yn ogystal â hynny, defnyddiwyd data trywydd archwilio i amcangyfrif hyd yr holiadur cyfan yn ogystal â hyd cwestiynau unigol lle nad oedd pwyntiau amseru yn ddigon cywir. Dengys Ffigur 4.1 y newid o ran hyd cymedrig a chanolrifol yr holiadur drwy gydol blwyddyn yr arolwg, gan ddangos i hyd y cyfweliad leihau ar ôl cyfnod ymsefydlu'r arolwg cychwynnol (Ebrill/Mai 2016). Mae'r graff hefyd yn dangos hyd y cyfweliad yn cynyddu ar ôl cyflwyno'r modiwl omnibws yn ystod y trydydd chwarter.

**Ffigur 4.1: Hyd cyfweliadau ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg**



- 4.27 Mae Atodiad C yn rhoi trosolwg o hyd canolrifol a chymedrig pob adran o'r holiadur. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli amseriadau cyfartalog ar gyfer pob adran drwy'r sampl lawn gyfan, sy'n golygu, lle na ofynnwyd cwestiynau penodol (e.e. o ganlyniad i is-samplu) i ymatebydd, bod amser y cwestiwn wedi'i bennu'n sero mewn achosion perthnasol.
- 4.28 Fel yr esbonnir yn adran 4.15, defnyddiwyd dull is-samplu yn yr arolwg, a oedd yn golygu bod rhai ymatebwyr yn cael eu holi am fodiwlau penodol ond na chafodd eraill eu holi. Mae Ffigur 4.2 yn rhoi trosolwg o ddosbarthiad hyd cyfweliadau ar gyfer mis yr arolwg heb y modiwl ychwanegol ar drethi (mis Ebrill i fis Medi 2016 a mis Ionawr i fis Mawrth 2017). Roedd hyd cymedrig cyfweliad tua 45 munud, gyda 50% o ymatebwyr yn cael cyfweliad a oedd yn para rhwng 36 a 58 munud.

**Ffigur 4.2: Dosbarthiad hyd cyfweliadau (heb gynnwys misoedd y modiwl ar drethi)**



### **Newidiadau i'r holiadur**

4.29 Cyflwynwyd nifer o newidiadau i'r holiadur yn ystod blwyddyn yr arolwg; rhoddwyd y newidiadau ar waith fel rhan o dreial cymhelliant, cynnwys y modiwl omnibws ar ymwybyddiaeth o drethi a newidiadau yn y ffracsiynau is-samplu. Roedd y prif newidiadau yn cynnwys y canlynol:

- Mehefin 2016 - Ychwanegwyd cymhelliant i'r holiadur ar gyfer hanner y sampl.
- Awst 2016 -Ychwanegwyd y cwestiwn ar brentisiaid er mwyn gwahaniaethu rhwng mathau o brentisiaethau.
- Hydref 2016 - Ychwanegwyd y modiwl ar ymwybyddiaeth o drethi.
- Hydref 2016 - Dilëwyd yr is-sampl ar ysbytai a gofynnwyd y cwestiwn i bawb, er mwyn sicrhau bod yr is-sampl flynyddol yn ddigon mawr o ystyried yr ymateb is na'r disgwyl.
- Hydref 2016 - Dilëwyd yr is-sampl ar 'Ymweliadau awyr agored' a gofynnwyd y cwestiwn i bawb.
- Hydref 2016 - Newidiwyd llwybro cwestiynau ynglŷn ag amddifadedd aelwydydd i bensiynwyr i ofyn y cwestiwn i bensiynwyr a oedd â phlant dibynnol yn unig.
- Tachwedd 2016 - Cynyddodd swm y cymhelliant o £5 i £10 ac fe'i cynigiwyd i bob ymatebydd.
- Tachwedd 2016 Cynyddwyd is-samplau ynglŷn â meddygon teulu a gwasanaethau iechyd lleol.



## 5. Gwaith maes

### Recriwtio cyfwelwyr

- 5.1 Mae holl gyfwelwyr SYG yn aelodau o staff a gyflogir yn uniongyrchol , sy'n cael cyflog yn seiliedig ar eu horiau cytundebol (gan gynnwys amser cyfweld yn ogystal ag amser at ddibenion teithio a gweinyddol). Ni thelir ffioedd penodol iddynt fesul cyfweliad a sicrhawyd nac ar sail gweithgareddau penodol eraill sy'n ymwneud ag arolygon. Yn lle hynny, mae eu cyflog yn cwmpasu'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'u swyddi, gan gynnwys hyfforddiant, paratoi gwaith, teithio i leoliadau ac ati. At hynny, mae cyfwelwyr yn hyblyg o ran yr oriau a weithir ganddynt er mwyn gweithio yn unol â'r galw a'r patrymau ymweld sydd eu hangen er mwyn cynnal gwaith maes yn y ffordd orau bosibl a hyrwyddo ansawdd data.
- 5.2 Hysbysebwyd swyddi gwag i gyfwelwyr ar wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil<sup>23</sup>. Fel arfer, ar ôl cylch cychwynnol o sgrinio ceisiadau a dethol, gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweliad sy'n seiliedig ar gymwyseddau a gynhelir dros y ffôn, er mwyn cyflymu'r broses o benodi pobl addas.
- 5.3 Dechreuodd y broses o recriwtio, hyfforddi a briffio cyfwelwyr newydd cyn i'r arolwg ddechrau ym mis Mawrth 2016 a pharhaodd drwy gydol cyfnod yr arolwg. Cyn i gyfwelwyr newydd gael eu briffio ar yr Arolwg Cenedlaethol, bu'n rhaid iddynt gwblhau hyfforddiant safonol SYG i gyfwelwyr, a oedd yn cynnwys gweithio ar gwtâu i arolygon eraill a gynhaliwyd gan SYG megis yr Arolwg o'r Llafurlu.
- 5.4 Mae cyfanswm o 110 o gyfwelwyr ac 8 rheolwr cyfwelwyr wedi cael eu briffio ar yr Arolwg Cenedlaethol ers mis Mawrth 2016, gyda 12 o gyfwelwyr yn gadael yn ystod y flwyddyn, gan adael cyfanswm o 98 (Tabl 5.1). Roedd chwe chyfwelydd ac un rheolwr cyfwelwyr yn siarad Cymraeg.

---

<sup>23</sup> <https://www.civilservicejobs.service.gov.uk>

**Tabl 5.1: Nifer y cyfwelwyr yn ôl misoedd yr arolwg<sup>24</sup>**

| Mis                | Cyfanswm nifer cyfwelwyr SYG yng Nghymru | Nifer y cyfwelwyr a neilltuwyd ar gyfer yr arolwg * |
|--------------------|------------------------------------------|-----------------------------------------------------|
| Mawrth/Ebrill 2016 | 59                                       | 47                                                  |
| Mai                | 67                                       | 45                                                  |
| Meh                | 67                                       | 57                                                  |
| Gorff              | 72                                       | 58                                                  |
| Awst               | 75                                       | 54                                                  |
| Medi               | 75                                       | 56                                                  |
| Hydref             | 75                                       | 59                                                  |
| Tachwedd           | 75                                       | 56                                                  |
| Rhagfyr            | 85                                       | 63                                                  |
| Ionawr 2017        | 90                                       | 56 (65)*                                            |
| Chwefror           | 90                                       | 64                                                  |
| Maw                | 98                                       | 65                                                  |

\* Mae nifer y cyfwelwyr yn y golofn hon ond yn cwmpasu cyfwelwyr a oedd yn gweithio ar yr arolwg yn ystod misoedd gwaith maes y prif arolwg. Ym mis Ionawr 2017, roedd naw cyfwelydd ychwanegol yn gweithio ar y prawf peilot ar gyfer arolwg 17/18.

### Briffio cyfwelwyr

5.5 Mynychodd pob cyfwelydd ddiwrnod briffio. Roedd y diwrnod briffio yn cynnwys y canlynol:

- **Cefndir yr arolwg** – yn esbonio'r angen polisi am yr arolwg hwn, camau datblygu'r arolwg newydd, ei gynnwys yn seiliedig ar y pum arolwg blaenorol, yn ogystal â dyluniad a methodoleg yr arolwg.
- **Gofynion a dogfennau ymweld** – yn tynnu sylw at weithdrefnau gwaith maes, yn enwedig pan oeddent yn wahanol i weithdrefnau safonol SYG megis defnyddio a gweinyddu deunyddiau'r arolwg.
- **Cynnwys yr holiadur** – yn rhoi trosolwg o bob maes yn yr holiadur, ynghyd ag ychydig o wybodaeth gefndir am fodiwlau i'w his-samplu, gan dynnu sylw'n benodol at adrannau lle roedd angen briffio manylach ar y ffordd roedd angen eu gweinyddu.
- **Gweinyddu CASI** – yn esbonio cynnwys a sensitifrwydd cwestiynau yn yr adran hon, gan esbonio diben cwestiynau ymarfer, a sut i helpu ymatebwyr i gwblhau o fewn CASI.

<sup>24</sup> Mae nifer y cyfwelwyr yn y tabl isod yn cyfeirio at niferoedd yn hytrach na ffigurau cyfwerth ag amser llawn (FTE). Mae oriau cyfwelwyr yn 0.6 FTE, ar gyfartaledd.

- **Cysylltu data** - yn esbonio pwysigrwydd a manteision cysylltu data'r arolwg â chofnodion gweinyddol eraill, gan roi gwybodaeth gefndir am y cysylltiadau data arfaethedig ar gyfer data'r Arolwg Cenedlaethol, gan esbonio'r ffordd yr ymdrinnir â'r cerdyn dangos, y daflen a'r siart lif ynglŷn â chysylltu data.
- **Ymarferion grŵp** – yn annog cyfwelwyr i ymarfer dewisiadau Grid Kish yn seiliedig ar rai senarios enghreifftiol o aelwydydd, yn ogystal ag ymarfer senarios carreg drws gyda mathau gwahanol o ddarpar ymatebwyr.
- **Gweinyddu yn y maes** – yn cwmpasu gwybodaeth gyffredinol am weinyddu'r arolwg.

- 5.6 Cyn y briffiadau, cafodd cyfwelwyr ddeunydd dysgu ar ffurf achosion hyfforddi, a dogfen Deunydd Gwybodaeth yr Arolwg a oedd yn cynnwys manylion am gwmpas yr arolwg, deunydd ysgrifennu, cyfnodau maes, nodiadau canllaw ar yr holiadur a gwybodaeth am weinyddu'r arolwg. Am ragor o wybodaeth am gwmpas yr arolwg, cyfeiriwch at wefan Llywodraeth Cymru, lle mae dogfen sy'n cwmpasu'r rhesymau dros gynnwys y gwahanol gwestiynau (a fu'n sail i Ddeunydd Gwybodaeth yr Arolwg) ar gael.<sup>25</sup> Mae Deunydd Gwybodaeth yr Arolwg ar gael ar gais.
- 5.7 Cyn i'r modiwl ar ymwybyddiaeth o drethi gael ei gyflwyno, yr arbrawf cymhelliant rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2016, a'r penderfyniad canlyniadol i gyflwyno'r cymhelliant i bob ymatebydd, rhoddwyd nodyn briffio ysgrifenedig i gyfwelwyr yn eu hysbysu o gefndir a chynnwys newidiadau i'r holiadur neu'r broses berthnasol.

### **Goruchwyliaeth a rheoli ansawdd**

- 5.8 Mae SYG yn defnyddio cyfres sefydledig o fesurau i olrhain ansawdd gwaith ei chyfwelwyr. Prif nodweddion y dull gweithredu hwn yw:
- defnyddio targedau clir y gellir monitro perfformiad cyfwelwyr yn eu herbyn;
  - gwiriadau rheoli ansawdd gyda chyfranogwyr er mwyn deall beth yw eu profiad o'r cyfweiliad;
  - adolygiadau rheolaidd o berfformiad er mwyn cael dealltwriaeth fwy ansoddol o'r ffordd mae cyfwelwyr yn perfformio.

<sup>25</sup> <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161201-national-survey-2016-17-background-to-questions-cy.pdf>

- 5.9 Er bod dangosyddion ansawdd yn hanfodol i fonitro'r agweddau allweddol ar waith cyfwelwyr, mae rhai agweddau ar ansawdd gwaith maes y gellir ond eu hasesu drwy siarad â'r cyfranogwyr eu hunain.
- 5.10 Er mwyn gwneud hyn mae SYG yn defnyddio system 'ffonio'n ôl' lle y cysylltir â hyd at 10% o'r holl achosion cynhyrchol dros y ffôn a gofynnir cyfres fer o gwestiynau er mwyn sicrhau bod safonau a phrosesau ansawdd yn cael eu cyflawni. Caiff canlyniadau galwadau rheoli ansawdd eu cynnwys yn yr adolygiad o berfformiad cyfwelwyr. Os oes unrhyw reswm dros bryder, caiff yr achos ei uwchgyfeirio ar unwaith.
- 5.11 Dewiswyd y cyfeiriadau a ddewiswyd ar gyfer ailgysylltu yn systematig, yn seiliedig ar ddull cylchdroi, gan sicrhau bod gwaith pob cyfwelydd yn cael ei ddilysu'n rheolaidd. Cafodd tua 10% o'r cyfwelwyr gwaith achosion a oedd yn gweithio drwy gydol blwyddyn arolwg 16/17 eu gwirio, a chafodd yr holl gyfeiriadau eu cadarnhau fel cyfweliadau dilys.

### **Dyddiadau gwaith maes, rheoli a gweithdrefnau**

- 5.12 Diwedd mis Mawrth 2016 oedd dyddiadau gwaith maes yr Arolwg Cenedlaethol (gan roi tua wythnos ychwanegol o gymharu â'r flwyddyn gwaith maes safonol, er mwyn rhoi mwy o amser i'r arolwg ymsefydlu) hyd at fis Mawrth 2017. Anfonwyd llythyrau ymlaen llaw a thaflenni'r arolwg gan swyddfa faes SYG tua phythefnos cyn dechrau pob cyfnod mis maes. Cyfwelwyr oedd yn gyfrifol am anfon llythyrau dilynol i'r cyfeiriadau yn y cwtâu a neilltuwyd iddynt. Roedd hyn yn sicrhau y gellid amseru dosbarthiad y deunyddiau i gyd-daro'n agos â'r amser pan oedd cyfwelwyr yn bwriadu ymweld ag aelwyd.
- 5.13 Anogwyd cyfwelwyr i ddechrau eu haseiniadau mor fuan â phosibl yn ystod y mis dyroddi a rhoddwyd un mis calendr iddynt gwblhau pob aseiniad a dychwelyd eu canlyniadau terfynol. Fodd bynnag, roedd yr union gyfnod gwaith maes a bennwyd i gyfwelydd gwblhau pob aseiniad yn amrywio, yn dibynnu ar nifer y cyfeiriadau a neilltuwyd a'r estyniadau a roddwyd i gwblhau cwtâu neu apwyntiadau a drefnwyd.
- 5.14 Cafodd cyfran o'r cyfeiriadau anghynhyrchol, fel arfer dim cyswllt neu wrthod pan gawsant eu dyroddi'n gyntaf, eu hailddosbarthu i gyfwelwyr maes fel cyfeiriadau a ailddyroddwyd ar ôl diwedd cyfnod y prif arolwg. Rhoddwyd blaenoriaeth i gyfeiriadau a ailddyroddwyd yn seiliedig ar y tebygolrwydd o sicrhau cyfweliad

llwyddiannus. Cyflwynwyd sylwadau ailddyroddi gan y cyfwelydd gwreiddiol yn ystod y prif arolwg ar raddfa sgorio safonol.

- 5.15 Gwnaeth cyfwelwyr alw heibio ar adegau gwahanol yn ystod y dydd ac ar ddiwrnodau gwahanol yn yr wythnos, gan gynnwys ar y penwythnos a gyda'r hwyr. Dylai cyfwelwyr anelu at alw heibio o leiaf chwe gwaith yn ystod mis y prif arolwg, gan alw heibio o leiaf ddwywaith gyda'r hwyr yn ystod yr wythnos neu ar y penwythnos (ar ôl 6pm) cyn y gellid codio achosion yn rhai dim cyswllt. Nid oedd unrhyw derfyn uchaf ar nifer yr ymweliadau a chafodd cyfwelwyr eu cyfarwyddo i barhau i ymweld â chyfeiriadau os oeddent yn teimlo bod cyfle o hyd i gysylltu ag aelwyd. Pan nad oedd cyfwelwyr yn gallu ymweld ddigon o weithiau neu pan nad oeddent yn teimlo ei bod yn werth parhau â'r achos ymhellach am resymau eraill (e.e. ymatebydd yn sâl neu ar ei wyliau ar y pryd), cafodd yr achos ei ailddyroddi yn y mis gwaith maes nesaf. Cofnodwyd amser, dyddiad a chanlyniad yr ymweliad, a chadarnhawyd patrymau ymweld yn rheolaidd fel rhan o'r adolygiad o berfformiad cyfwelwyr gan reolwyr. Yn ystod 2016-17 ymwelodd cyfwelwyr â chyfeiriad deirgwaith ar gyfartaledd er mwyn sicrhau cyfweiliad, cadarnhau bod yr achos yn anghymwys neu gadarnhau achosion o wrthod. Ymwelwyd â chyfeiriad chwe gwaith ar gyfartaledd ar gyfer achosion o ddiffyg cyswllt, gydag achosion addas yn cael eu hailddyroddi er mwyn sicrhau bod achosion anodd eu cyrraedd yn cael eu cwmpasu ym mhoblogaeth yr arolwg.
- 5.16 Cafodd y gwaith maes ei reoli'n ddyddiol gan dîm o Reolwyr Cyfweiliadau a oedd yn gweithio gyda Rheolwr Prosiect Maes cyffredinol. Gwnaeth aelodau o dimau Maes ac Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG oruchwylio gwaith maes a monitro'r gyfradd gynnydd yn ddyddiol. Anfonwyd gwybodaeth wythnosol at Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gyfradd gynnydd gyffredinol yn erbyn targedau a dadansoddiad o'r ffigurau ar lefel ALI.

### **Dogfennau gwaith maes**

- 5.17 Bu'n rhaid i ddogfennau'r arolwg a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf maes ar raddfa fawr yn 2015 gael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu amrywiol newidiadau, gan gynnwys y ffaith bod yr arolwg yn cael ei gynnal gan SYG bellach. Fel rhan o'r broses hon, adolygodd SYG a Llywodraeth Cymru gynnwys a dyluniad holl ddeunyddiau'r arolwg a chytunwyd ar nifer o newidiadau i wella'r dogfennau hyn. Dymunai SYG gysoni'r holl ddeunyddiau ymlaen llaw â'i gweithdrefnau safonol tra'n

dal i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, newidiwyd geiriad llythyr ymlaen llaw o dan frand Llywodraeth Cymru, a diwygiwyd diwyg a chynnwys taflen yr arolwg a anfonwyd ar y cyd ag ef drwy gwtogi ar destun ac ychwanegu elfennau mwy gweledol megis ffeithluniau a chysylltiad gweledol â Chymru ar y dudalen flaen. At hynny, cyflwynwyd ail lythyr ymlaen llaw a thaflen o dan frand SYG fel rhan o ddyluniad yr arolwg, a oedd yn rhan o weithdrefnau safonol SYG ond wedi'u teilwra at yr Arolwg Cenedlaethol o ran cynnwys a dyluniad. Yn olaf, diwygiwyd y daflen a'r cerdyn dangos cysylltu data ymhellach, ac ychwanegwyd taflen 'diolch' newydd at ddeunyddiau'r arolwg ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol. Profwyd holl ddeunydd yr arolwg fel rhan o'r prawf peilot ym mis Ionawr/Chwefror 2016 a pharatowyd fersiynau terfynol cyn dechrau gwaith maes y prif arolwg ar ddiwedd mis Mawrth 2016.

- 5.18 Cafodd llythyr ymlaen llaw a thaflen o dan frand Llywodraeth Cymru eu postio'n ganolog gan y pencadlys 10 diwrnod cyn dechrau mis y prif arolwg, rhoddwyd cyflenwad o lythyrau ymlaen llaw a thaflenni o dan frand SYG i gyfwelwyr, a chafodd y rhain eu postio gan gyfwelwyr wythnos cyn eu hymweliad cyntaf â'r cyfeiriadau yn y cwtâu a neilltuwyd iddynt.

*Deunyddiau maes ymlaen llaw*

- 5.19 Oherwydd newid yng nghanllawiau brandio Llywodraeth Cymru yng nghanol 2016, cafodd yr holl ddeunydd ymlaen llaw o dan frand Llywodraeth Cymru ei ddiweddarau ychydig erbyn dechrau'r ail chwarter (Gorffennaf ymlaen). Roedd hyn yn bennaf yn golygu mân newid i'r diwyg ac ailosod logo Llywodraeth Cymru. Mae'r fersiynau o holl ddeunydd yr arolwg a ddefnyddiwyd o fis Gorffennaf ymlaen wedi'u cynnwys yn Atodiadau Ch i E.
- 5.20 Dangosir y set lawn o ddogfennau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn Nhabl 5.2, ynghyd â disgrifiad byr o bob dogfen.

**Tabl 5.2: Deunyddiau'r arolwg**

| <b>Dogfen</b>                                             | <b>Disgrifiad</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|-----------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Llythyr ymlaen llaw Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad Ch) | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anfonwyd ymlaen llaw i bob cyfeiriad a samplwyd</li> <li>• Yn hysbysu'r aelwyd bod y cyfeiriad wedi'i ddewis i gymryd rhan yn yr arolwg</li> <li>• Yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am yr arolwg</li> <li>• Dwy iaith</li> <li>• Yn ystod yr arbrawf cymhelliant, defnyddiwyd dwy fersiwn wahanol - soniodd y naill am y cymhelliant, ni wnaeth y llall</li> </ul> |
| Taflen gan Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad D)            | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anfonwyd ar y cyd â'r llythyr ymlaen llaw.</li> <li>• Yn cynnwys rhagor o fanylion am bwyntiau a drafodwyd yn y llythyr, enghreifftiau o ffeithluniau a gwybodaeth gyswllt</li> <li>• Dwy iaith</li> </ul>                                                                                                                                                        |
| Llythyr ymlaen llaw SYG (gweler Atodiad Dd)               | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anfonwyd gan gyfwelwyr cyn ymweld â'r cyfeiriad.</li> <li>• Cynnwys tebyg i lythyr ymlaen llaw Llywodraeth Cymru</li> <li>• Dwy iaith</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                  |
| Taflen gan SYG (gweler Atodiad Dd)                        | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anfonwyd gan gyfwelwyr cyn ymweld â'r cyfeiriad.</li> <li>• Yn esbonio pam y dewiswyd y cyfeiriad a pham bod cymryd rhan yn bwysig</li> <li>• Dwy iaith</li> </ul>                                                                                                                                                                                                |
| Amlen arolwg                                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn cael ei defnyddio i bostio llythyrau ymlaen llaw/taflenni</li> <li>• Yn cynnwys logo Llywodraeth Cymru a SYG ar y blaen</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                             |
| Cardiau dangos craidd                                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Un cerdyn A4 wedi'i lamineiddio sy'n dangos y ddwy restr gyffredin a gynhwyswyd drwy'r holiadur cyfan.</li> <li>• Dwy iaith</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                            |
| Prif gardiau dangos                                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd hyn yn cynnwys yr holl restrau o ymatebion wedi'u hysgogi ar wahân i'r rhai a gynhwyswyd yn y cardiau dangos craidd.</li> <li>• Llyfryn A4 dwyieithog</li> </ul>                                                                                                                                                                                            |
| Llawlyfr Cyfweld yr Arolwg                                | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarwyddiadau i gyfwelwyr.</li> <li>• Roedd hyn yn cynnwys rhagor o fanylion am ofynion yr arolwg / gweithdrefnau i'w dilyn</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                           |

|                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cardiau ymweld heddiw; Cerdyn apwyntiad; Cerdyn torri apwyntiad; a phad Negeseuon Cyffredinol | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd deunydd maes safonol SYG i gyfwelwyr, y gallent ei adael mewn cyfeiriadau lle nad oedd ateb er mwyn dweud eu bod wedi ymweld, cadarnhau manylion apwyntiad cyfweliad, gadael nodyn atgoffa neu negeseuon cyffredinol i ymatebwyr</li> <li>• Dwy iaith</li> </ul>                                                                                                                                                             |
| Dogfennau cysylltu data (Atodiad E)                                                           | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd nifer o ddogfennau ynglŷn â'r broses cysylltu data i gyfwelwyr er mwyn eu helpu i ddod yn gyfarwydd â hi a rhoi gwybodaeth i ymatebwyr.</li> <li>• Y dogfennau a ddarparwyd oedd: cerdyn dangos a siart lif cysylltu data.</li> <li>• Dwy iaith</li> </ul>                                                                                                                                                                   |
| Taflenni gwaith A5                                                                            | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn cael eu defnyddio ar gyfer pob cyfeiriad yn aseiniad y cyfwelydd.</li> <li>• Roedd Grid Kish wedi'i gynnwys a oedd yn rhoi'r haprifau perthnasol ar gyfer y cyfeiriad priodol yn eu cwota i gyfwelwyr er mwyn eu galluogi i ddewis yr aelwyd gywir a'r unigolyn cywir yn y cyfeiriad a samplwyd.</li> <li>• Yn ystod yr arbrawf cymhelliant, roedd taflen yr aseiniad yn nodi i ba gyfeiriadau y cynigiwyd cymhelliant.</li> </ul> |
| Grid Kish (gweler Atodiad A)                                                                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tabl o haprifau wedi'u pennu ymlaen llaw er mwyn nodi'r unigolyn i'w gyfweld ym mhob cyfeiriad. Defnyddiwyd grid 40 cyfeiriad yn seiliedig ar y nifer fwyaf o gyfeiriadau mewn cwota.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                      |
| Taflenni o ffeithluniau a thaflen ysgogi i gyfwelwyr                                          | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Taflen ffeithluniau fer o ganlyniadau arolygon blaenorol Llywodraeth Cymru / cyrff a noddir.</li> <li>• Er mwyn helpu gyda sgysiau gwrthod.</li> <li>• Dwy iaith</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Taflen diolch (Atodiad F)                                                                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Taflenni 'diolch' a roddwyd gan y cyfwelydd ar ddiwedd y cyfweliad.</li> <li>• Roedd y daflen yn diolch i'r cyfranogwr am gymryd rhan ac yn rhoi manylion cyswllt sefydliadau a oedd yn rhoi mwy o wybodaeth a chymorth ynglŷn â meysydd pwnc a oedd yn rhan o'r arolwg.</li> </ul>                                                                                                                                                   |



## **Tudalennau gwe am yr arolwg**

- 5.21 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwybodaeth am wybodaeth arolygon sy'n benodol i ymatebwyr (<http://gov.wales/statistics-and-research/about-national-survey-wales/?lang=cy>). Mae'r cyfeiriad gwe hwn wedi'i nodi yn neunyddiau'r arolwg fel adnodd ychwanegol o wybodaeth i ymatebwyr ac i roi sicrwydd iddynt fod yr arolwg yn ddilys.
- 5.22 Yn ogystal â hynny sefydlodd SYG dudalen we a gynhaliwyd ar wefan SYG (<https://www.ons.gov.uk/surveys/informationforhouseholdsandindividuals/householdandindividualsurveys/nationalsurveyforwales>) yn benodol ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, er mwyn hysbysu ymatebwyr a'r cyhoedd am rôl SYG fel y sefydliad a gomisiynwyd i gynnal yr arolwg hwn ar ran Llywodraeth Cymru.
- 5.23 Cynhelir cyfres ar wahân o dudalennau gwe wedi'u hanelu at ddefnyddwyr arolwg yn hytrach nag ymatebwyr yn <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy>. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am yr arolwg, disgrifiad o ddull yr arolwg a chwmpas yr holiadur, y newyddion diweddaraf (er enghraifft, pan fydd data neu adroddiadau newydd yn cael eu cyhoeddi), canlyniadau ac adroddiadau o'r gwaith datblygu, a gwybodaeth bellach am gysylltu data. Mae copïau electronig o ddeunyddiau'r arolwg hefyd wedi'u cynnwys ar y wefan.
- 5.24 Mae gwybodaeth ar y tudalennau gwe hyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## **Cyfweliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill**

- 5.25 Cynigiwyd cyfle i bob ymatebydd gwblhau'r cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn hygyrch yn Gymraeg, darparwyd holl ddogfennau'r arolwg yn Gymraeg ac yn Saesneg. At hynny, roedd nifer o gyfwelwyr yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr ar lefelau gwahanol. Cafodd chwe chyfwelydd i gyd eu hyfforddi i gynnal cyfweliadau yn Gymraeg.
- 5.26 Rhoddodd taflen yr arolwg rif rhadffon y gallai ymatebwyr ei ffonio er mwyn trefnu cyfwelydd a oedd yn siarad Cymraeg. Cafodd ceisiadau am gyfweliad yn Gymraeg lle roedd y cyfwelydd gwreiddiol wedi cael hyfforddiant i gyfweld yn Gymraeg eu cwblhau gan yr un cyfwelydd. Fel arall, mewn achosion lle nad oedd y cyfwelydd y neilltuwyd y cyfeiriad iddo/iddi wedi cael hyfforddiant i gynnal cyfweliadau yn Gymraeg, cyfarwyddwyd y cyfwelydd i gysylltu â Swyddfa Faes SYG i gofnodi'r cais. Yna, trosglwyddwyd y cofnod ar unwaith i gyfwelydd a oedd yn siarad

Cymraeg a allai gysylltu â'r ymatebydd yn uniongyrchol a threfnu i gynnal y cyfweiliad ar ddiwrnod addas i'r ymatebydd.

- 5.27 Mewn nifer fach o achosion nid oedd ymatebwyr yn gallu cwblhau'r cyfweiliad yn Gymraeg nac yn Saesneg (Tabl 5.3). Yn yr achosion hyn cynhaliwyd y cyfweiliad gyda chymorth cyfieithydd yn yr aelwyd (14 oed neu'n hŷn), a gyfieithodd y cwestiynau i ddewis iaith yr ymatebydd ac yna rhoi eu hatebion yn ôl i'r cyfweiliad yn Saesneg.
- 5.28 Mewn sefyllfaoedd o'r fath, roedd sgript yr holiadur wedi'i llwybro'n awtomatig i hepgor nifer o gwestiynau sensitif yn y cyfweiliadau hyn. Roedd y rhain yn gwestiynau y teimlwyd y byddai'n amhriodol eu gofyn ym mhresenoldeb aelodau eraill o'r aelwyd neu gyfieithwyr (e.e. Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh, profiad o unigedd, hunaniaeth o ran rhywedd).

**Tabl 5.3: Iaith y cyfweiliad**

| Iaith    | Amllder | Canran |
|----------|---------|--------|
| Saesneg  | 10337   | 98.5   |
| Cymraeg  | 152     | 1.4    |
| Arall    | 4       | < 0.1  |
| Cyfanswm | 10493   | 100.0  |

### Y broses o gysylltu â chyfeiriad a samplwyd

- 5.29 Rhoddwyd taflenni cyfeiriad i gyfweilwyr ar gyfer pob cyfeiriad yn eu cwota, gan gynnwys gwybodaeth am y cyfeiriad yn ogystal â Grid Kish gyda haprifau ar gyfer y cyfeiriad perthnasol yn eu cwota, er mwyn eu galluogi i ddewis yr aelwyd gywir a'r unigolyn cywir yn y cyfeiriad a samplwyd (gweler adran 3.22). At hynny, defnyddiodd cyfweilwyr adnodd yr holiadur ar eu gliniadur i gofnodi pob ymgais i ymweld â chyfeiriad, yn ogystal â gwybodaeth am aelodaeth yr aelwyd pan gysylltwyd â hi.
- 5.30 Roedd angen i gyfweilwyr fynd drwy'r camau canlynol wrth ymweld â chyfeiriad a samplwyd:

**1. Cadarnhau'r cyfeiriad:** Y dasg gyntaf i gyfweilwyr oedd cadarnhau'r cyfeiriad eu hunain cyn cysylltu, er mwyn sicrhau eu bod yn ymweld â'r cyfeiriad cywir ac yna gadarnhau hyn gyda rhywun a oedd yn byw yn y cyfeiriad wrth gyflwyno'r arolwg.

- 2. Cadarnhau bod y cyfeiriad yn gymwys:** Ar gyfer pob cyfeiriad, roedd angen i gyfwelwyr gadarnhau bod modd ei olrhain, ei fod yn gyfeiriad preswyl a'i fod yn brif breswylfa.
- 3. Cofnodi nifer yr unedau annedd:** Roedd angen i gyfwelwyr gadarnhau nifer yr unedau annedd yn y cyfeiriad. Yn y rhan fwyaf o achosion un annedd ydoedd; os oedd mwy nag un (pan oedd cyfeiriad wedi'i rannu'n fflatiau fel arfer) gofynnwyd iddynt hysbysu'r pencadlys, a fyddai'n diweddarau ac yn ailddyroddi'r cwota yn unol â hynny gydag un o'r cyfeiriadau wedi'i ddewis ar hap.
- 4. Cofnodi nifer yr aelwydydd:** Mewn nifer fach o achosion efallai fod mwy un aelwyd yn byw mewn uned annedd sengl. Mae SYG yn defnyddio'r diffiniad safonol o aelwyd o Gyfrifiad Cymru a Lloegr, sy'n diffinio aelwyd fel a ganlyn: *'grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac yn rhannu ystafell fyw neu lolfa neu ardal fwyta'*. Mewn achosion lle roedd mwy nag un aelwyd mewn cyfeiriad a samplwyd, cyfarwyddwyd cyfwelwyr i ddefnyddio Grid Kish er mwyn cadarnhau'r aelwyd gywir i'w dewis. Cynghorwyd cyfwelwyr i ailgadarnhau eu dewis o aelwyd gyda'r pencadlys, yn enwedig os oedd y broses ddewis yn aneglur (e.e. os nad oedd gan yr unedau rifau).
- 5. Cofnodi nifer yr oedolion 16 oed neu'n hŷn:** Ar ôl dewis yr uned annedd a'r aelwyd, yna roedd angen i'r cyfwelydd gadarnhau nifer yr oedolion (16 oed neu'n hŷn) a oedd yn byw yn y cyfeiriad a ddewiswyd a'u hoedran er mwyn eu trefnu o'r hynaf i'r ieuengaf. Ar ôl gwneud hyn bu'n rhaid dewis un unigolyn ar hap drwy ddefnyddio Grid Kish a ddefnyddiwyd. Mewn aelwydydd a oedd yn cynnwys un oedolyn 16 oed neu'n hŷn yn unig, nid oedd angen dewis unigolyn.
- 6. Cael caniatâd rhiant:** Mewn achosion lle roedd yr ymatebydd a ddewiswyd yn 16 neu 17 oed ac yn byw gyda rhiant/gwarcheidwad, roedd angen i'r cyfwelydd gael caniatâd rhiant cyn cynnal cyfweliad. Er mwyn gwneud hyn roedd angen iddynt gofnodi enw'r unigolyn a oedd yn rhoi caniatâd a'i berthynas â'r ymatebydd yn holiadur CAPI. Nid oedd angen llofnod i ategu hyn.
- 7. Cofnodi dewis iaith cyfweliad yr ymatebydd:** Cadarnhaodd y cyfwelydd ar garreg y draws beth oedd dewis iaith yr ymatebydd ar gyfer y cyfweliad. Ar ddechrau'r cyfweliad nododd y cyfwelydd ddewis iaith yn yr holiadur CAPI, er mwyn sicrhau bod gweddill yr holiadur yn ymddangos yn yr iaith gywir (Cymraeg neu Saesneg). Ar gyfer ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, roedd yr holiadur yn arddangos yn Saesneg, ond fe'i cyflawnwyd gyda chymorth cyfieithydd (gweler adran 5.22).

## Canlyniadau samplau

- 5.31 Arweiniodd cyfanswm o 48.4% o'r sampl a ddyroddwyd at gyfweiliadau llwyddiannus (Tabl 5.4). Y canlyniad amlaf ond un oedd penderfyniad i wrthod cael cyfweiliad, gan gynnwys torri apwyntiadau, a oedd yn cyfrif am fwy na 27% o'r sampl a ddyroddwyd a 30% o'r sampl gymwys. Roedd diffyg cyswllt yn cyfrif am tua 6.7% o'r sampl a ddyroddwyd a 7.6% o'r sampl gymwys. Dengys Tabl 5.4 a Thabl 5.5 ganlyniadau'r sampl ar gyfer pob cyfeiriad a samplwyd.

**Tabl 5.4: Canlyniadau'r sampl ar lefel genedlaethol**

| Cod canlyniad                                                                                   | Cyfanswm y cyfeiriadau | % y sampl a ddyroddwyd | % y sampl gymwys |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|------------------------|------------------|
| <b>Cymwys</b>                                                                                   |                        |                        |                  |
| Cyfweiliad wedi'i gwblhau gan yr unigolyn a ddewiswyd                                           | 10,450                 | 48.23                  | 54.37            |
| Cyfweiliad rhannol gan yr unigolyn a ddewiswyd                                                  | 43                     | 0.20                   | 0.22             |
| Dim cyswllt ag unrhyw un yn y cyfeiriad                                                         | 1,024                  | 4.73                   | 5.33             |
| Gwnaed cyswllt yn y cyfeiriad, ond nid ag unrhyw aelod o'r annedd/aelwyd a samplwyd             | 168                    | 0.78                   | 0.87             |
| Gwnaed cyswllt yn yr annedd/aelwyd a samplwyd, ond nid ag unrhyw breswlydd cyfrifol             | 32                     | 0.15                   | 0.17             |
| Gwnaed cyswllt ag aelod cyfrifol o'r annedd/aelwyd a samplwyd, ond nid â'r unigolyn a ddewiswyd | 226                    | 1.04                   | 1.18             |
| Y swyddfa (Pencadlys) yn gwrthod                                                                | 843                    | 3.89                   | 4.39             |
| Ymatebydd gofynnol / unigolyn a ddewiswyd yn gwrthod                                            | 3,697                  | 17.06                  | 19.24            |
| Gwrthod drwy ddirprwy                                                                           | 650                    | 3.00                   | 3.38             |
| Gwrthod yn ystod cyfweiliad                                                                     | 52                     | 0.24                   | 0.27             |
| Torri apwyntiad, dim ailgysylltiad                                                              | 678                    | 3.13                   | 3.53             |
| Yn sâl gartref yn ystod cyfnod yr arolwg: hysbyswyd y pencadlys                                 | 25                     | 0.12                   | 0.13             |
| Yn sâl gartref yn ystod cyfnod yr arolwg: hysbyswyd y cyfwelydd                                 | 297                    | 1.37                   | 1.55             |
| I ffwrdd/yn sâl yn yr ysbyty drwy gydol y cyfnod maes: hysbyswyd y pencadlys                    | 13                     | 0.06                   | 0.07             |
| I ffwrdd/yn sâl yn yr ysbyty drwy gydol y cyfnod maes: hysbyswyd y cyfwelydd                    | 579                    | 2.67                   | 3.01             |
| Anallu/anghymwys yn gorfforol neu feddyliol: hysbyswyd y pencadlys                              | 24                     | 0.11                   | 0.12             |
| Anallu/anghymwys yn gorfforol neu'n feddyliol hysbyswyd y cyfwelydd                             | 308                    | 1.42                   | 1.60             |
| Anawsterau iaith: hysbyswyd y cyfwelydd                                                         | 29                     | 0.13                   | 0.15             |
| Cyfweiliad coll                                                                                 | 8                      | 0.04                   | 0.04             |
| Dyroddwyd ond nis ceisiwyd                                                                      | 2                      | 0.01                   | 0.01             |
| Anhygyrch                                                                                       | 14                     | 0.06                   | 0.07             |
| Methu dod o hyd i'r cyfeiriad                                                                   | 19                     | 0.09                   | 0.10             |
| Gwrthodwyd rhoi gwybod a yw'r cyfeiriad yn un preswyl                                           | 1                      | 0.00                   | 0.01             |
| Ni wyddys a yw'r cyfeiriad yn un preswyl oherwydd diffyg cyswllt                                | 12                     | 0.06                   | 0.06             |
| Gwrthodwyd rhoi gwybod a oedd unrhyw breswlydd/preswylwyr cymwys                                | 2                      | 0.01                   | 0.01             |

| Cod canlyniad                                                               | Cyfanswm y cyfeiriadau | % y sampl a ddyroddwyd | % y sampl gymwys |
|-----------------------------------------------------------------------------|------------------------|------------------------|------------------|
| Ni wyddys a oes unrhyw breswilydd/preswylwyr cymwys oherwydd diffyg cyswllt | 24                     | 0.11                   | 0.12             |
| <b>Anghymwys</b>                                                            |                        |                        |                  |
| Heb ei hadeiladu eto / yn cael ei hadeiladu                                 | 60                     | 0.28                   | -                |
| Wedi'i dymchwel / segur                                                     | 93                     | 0.43                   | -                |
| Gwag                                                                        | 1,333                  | 6.15                   | -                |
| Cyfeiriad nad yw'n breswyl                                                  | 342                    | 1.58                   | -                |
| Cyfeiriad wedi'i feddiannu, ond heb aelwyl breswyl/preswilydd/preswylwyr    | 535                    | 2.47                   | -                |
| Sefydliad cymunedol                                                         | 55                     | 0.25                   | -                |
| Wedi cyfarwyddo i beidio â samplu yn y cyfeiriad                            | 28                     | 0.13                   | -                |
| <b>Cyfanswm y cyfeiriadau</b>                                               | <b>21,666</b>          |                        |                  |

**Tabl 5.5: Canlyniadau'r sampl ar lefel awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol           | Cyfweliadau a sicrhawyd (%)* | Gwrthodwyd (%) | Dim cyswllt (%) | Anghymwys (%) | Arall (%)   |
|--------------------------|------------------------------|----------------|-----------------|---------------|-------------|
| Ynys Môn                 | 52.40                        | 18.55          | 3.63            | 22.44         | 2.98        |
| Gwynedd                  | 50.39                        | 17.21          | 5.29            | 24.30         | 2.81        |
| Conwy                    | 48.59                        | 26.15          | 3.85            | 15.51         | 5.90        |
| Sir Ddinbych             | 51.69                        | 24.29          | 5.53            | 13.23         | 5.26        |
| Sir y Fflint             | 53.54                        | 30.07          | 2.24            | 8.02          | 6.13        |
| Wrecsam                  | 47.02                        | 34.69          | 7.59            | 7.05          | 3.66        |
| Ceredigion               | 53.41                        | 19.58          | 2.48            | 17.72         | 6.82        |
| Sir Benfro               | 48.16                        | 22.14          | 4.34            | 18.13         | 7.23        |
| Sir Gaerfyrddin          | 50.99                        | 27.80          | 3.61            | 9.75          | 7.85        |
| Abertawe                 | 44.23                        | 28.46          | 7.28            | 11.60         | 8.43        |
| Castell-nedd Port Talbot | 41.96                        | 36.69          | 6.50            | 7.98          | 6.87        |
| Pen-y-bont ar Ogwr       | 49.73                        | 28.86          | 6.23            | 10.16         | 5.01        |
| Bro Morgannwg            | 47.12                        | 28.61          | 9.40            | 6.59          | 8.27        |
| Caerdydd                 | 41.54                        | 26.49          | 14.77           | 7.47          | 9.73        |
| Rhondda Cynon Taf        | 47.03                        | 31.58          | 6.47            | 8.98          | 5.94        |
| Caerffili                | 44.30                        | 32.46          | 9.54            | 6.47          | 7.24        |
| Blaenau Gwent            | 46.61                        | 26.35          | 10.13           | 10.13         | 6.79        |
| Torfaen                  | 51.22                        | 32.52          | 7.04            | 4.35          | 4.87        |
| Sir Fynwy                | 59.92                        | 22.10          | 2.69            | 7.37          | 7.93        |
| Casnewydd                | 47.89                        | 30.75          | 8.10            | 6.57          | 6.69        |
| Powys                    | 51.46                        | 24.80          | 5.01            | 14.52         | 4.20        |
| Merthyr Tudful           | 44.10                        | 33.59          | 9.49            | 8.21          | 4.62        |
| <b>Cyfanswm</b>          | <b>48.43</b>                 | <b>27.32</b>   | <b>6.69</b>     | <b>11.29</b>  | <b>6.26</b> |

\* Mae'r cyfraddau ymateb yn seiliedig ar gyfnod 16-17 yr arolwg, a ddaeth i ben ddiwedd mis Mawrth 2017. Mae hyn yn golygu nad yw cyfeiriadau a ailddyroddwyd ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth wedi'u cynnwys yn y tabl hwn.

## Sampl a chyfeiriadau a ailddyroddwyd

- 5.32 Ar gyfer pob cyfnod maes cafodd cyfran o achosion a oedd wedi'u codio'n rhai oedd yn gwrthod, diffyg cyswllt neu ddiffyg ymateb ei hailddyrrannu i gwotâu cyfweld a'u hailddosbarthu. Y nod oedd lleihau tuedd diffyg ymateb a chynyddu'r ymateb yn gyffredinol. Roedd cyfeiriadau a ailddyroddwyd yn cyfrif am tua 1.5% o'r holl achosion cynhyrchiol, neu 0.7% o'r sampl a ddyroddwyd. Roedd y gyfradd ymateb ar y cam ailddyroddi tua 11 pwynt canrannol yn is nag ydoedd yn y prif arolwg (Tabl 5.6). O ystyried i'r un fethodoleg maes gael ei defnyddio ar gyfer y prif arolwg a'r achosion a ddyroddwyd, mae'r arsylwad hwn yn awgrymu bod cyfweiliadau llwyddiannus yn gymharol anos i'w sicrhau ar y cam ailddyroddi. Mae hyn yn awgrymu bod yr ymdrech ychwanegol a roddwyd mewn cyfeiriadau a ailddyroddwyd wedi cryfhau'r set ddata yn gyffredinol drwy gynyddu cyfran y cyfeiriadau a fyddai fel arfer yn gwrthod neu sydd fel arall yn anodd eu cyrraedd mewn arolygon cymdeithasol.

**Tabl 5.6: Canlyniadau yn ôl y prif arolwg o'i gymharu â'r cyfnod ailddyroddi**

| Cyfnod yr arolwg | Achosion cymwys          |              |                                                    | Achosion anghymwys | Cyfraddau ymateb |
|------------------|--------------------------|--------------|----------------------------------------------------|--------------------|------------------|
|                  | Cyfweiliadau a sicrhawyd | Gwrthodiadau | Diffyg ymateb/diffyg cyswllt/ Cymhwyster anhysbys/ |                    |                  |
| Prif arolwg      | 10337                    | 5746         | 2781                                               | 2381               | 54.8%            |
| Ailddyroddi      | 156                      | 174          | 26                                                 | 65                 | 43.8%            |
| Cyfanswm         | 10493                    | 5920         | 2807                                               | 2446               | 54.6%            |

- 5.33 Dylid nodi, er bod achosion a nodwyd fel rhai i'w hailddyroddi yn ystod misoedd gwaith maes mis Chwefror a mis Mawrth wedi'u gweithredu yn unol â phrosesau arferol, y caiff unrhyw achosion cynhyrchiol o'r cyfnodau ailddyroddi hyn eu cynnwys yn nata arolwg 17-18.

## Sampl a sicrhawyd

- 5.34 Sicrhawyd cyfanswm o 10,493 o gyfweiliadau Rhoddir dadansoddiad o gyfweiliadau rhwng pob chwarter yn 2016-17 yn Nhabl 5.7.

**Tabl 5.7: Cyfweiliadau a sicrhawyd fesul chwarter**

| Chwarter         | Dyddiadau cyfweld          | Cyfweiliadau a sicrhawyd | Cyfweiliadau cronol a sicrhawyd |
|------------------|----------------------------|--------------------------|---------------------------------|
| 1                | 1 Ebrill 2016 i 30 Mehefin | 2,548                    | 2,548                           |
| 2                | 1 Gorffennaf i 30 Medi     | 2,609                    | 5,157                           |
| 3                | 1 Hydref i 31 Rhagfyr      | 2,544                    | 7,701                           |
| 4                | 1 Ionawr 2017 i 31 Mawrth  | 2,792                    | 10,493                          |
| <b>CYFAN SWM</b> |                            | <b>10,493</b>            | <b>10,493</b>                   |

5.35 Cyfrifwyd y gyfradd ymateb (Tabl 5.6 a Thabl 5.8) fel a ganlyn:

$$\text{Cyfradd ymateb} = \text{cyfweiliadau a sicrhawyd} / (\text{cyfanswm y cyfeiriadau} - \text{achosion anghymwys})$$

Mae'r mynegai yn darparu ffracsiwn y cyfeiriadau cymwys a arweiniodd at gyfweiliad llwyddiannus.

- 5.36 Cyfeiriadau anghymwys yw cyfeiriadau na fyddent yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae hyn ond yn cynnwys cyfeiriadau a oedd yn wag, nad oeddent yn rhai preswyl neu nad oeddent wedi'u meddiannu fel prif breswylfan (e.e. cartrefi gwyliau) a'r rhai a godiwyd gan gyfwelwyr fel rhai anhygyrch neu nad oeddent yn gallu dod o hyd iddynt. Nid yw'n cynnwys cyfeiriadau y mae cyfwelwyr wedi ceisio ymweld â nhw nifer o weithiau ond lle na fu cyswllt, oni bai bod tystiolaeth glir bod y cyfeiriad yn wag neu nad yw wedi'i feddiannu fel prif breswylfan (e.e. drwy gadarnhau hyn gyda chymdogion). Roedd 11.3% o gyfeiriadau yn anghymwys yn gyffredinol.
- 5.37 Ar ddechrau'r prosiect y gyfradd ymateb arfaethedig oedd 61%, yn seiliedig ar arolygon eraill yng Nghymru (heb gynnwys prawf ar raddfa fawr 2015, nad oedd ei ganlyniadau ar gael eto).
- 5.38 Er bod lwfans ar gyfer ymateb is yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn yr arolwg am fod yr arolwg yn ymsefydlu, roedd y gyfradd ymateb a sicrhawyd ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol newydd yn dal i fod yn annisgwyl o isel, hyd yn oed ar ôl y chwarter cyntaf. Dengys Tabl 5.8 y cyfraddau ymateb ar gyfer 2016-17 ar lefel ALI. Y gyfradd ymateb gyffredinol a gyflawnodd oedd 54.6% (heb gynnwys cyfeiriadau a ailddyroddwyd ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth 2017 oherwydd caiff y rhain eu cynnwys yn nata 17-18). Mae'r ffigur hwn 1.9 pwynt canrannol yn is na'r gyfradd ymateb a sicrhawyd yn y prawf maes ar raddfa fawr yn 2015.

**Tabl 5.8: Cyfradd ymateb a gyflawnwyd yn ôl ALI (yn nhrefn y gyfradd ymateb)**

| Awdurdod lleol                 | Cyfanswm y cyfeiriadau* | Targed cyfweliadau | Cyfweliadau a gwblhawyd | Cyfeiriadau anghymwys | Cyfradd ymateb (%) |
|--------------------------------|-------------------------|--------------------|-------------------------|-----------------------|--------------------|
| Ynys Môn                       | 771                     | 475                | 404                     | 173                   | 67.56              |
| Gwynedd                        | 889                     | 516                | 448                     | 216                   | 66.57              |
| Ceredigion                     | 807                     | 532                | 431                     | 143                   | 64.91              |
| Sir Fynwy                      | 706                     | 423                | 423                     | 52                    | 64.68              |
| Powys                          | 2,355                   | 1,263              | 1,212                   | 342                   | 60.21              |
| Sir Ddinbych                   | 741                     | 430                | 383                     | 98                    | 59.56              |
| Sir Benfro                     | 899                     | 497                | 433                     | 163                   | 58.83              |
| Sir y Fflint                   | 848                     | 477                | 454                     | 68                    | 58.21              |
| Conwy                          | 780                     | 446                | 379                     | 121                   | 57.51              |
| Sir Gaerfyrddin                | 1,108                   | 589                | 565                     | 108                   | 56.50              |
| Pen-y-bont ar Ogwr             | 738                     | 408                | 367                     | 75                    | 55.35              |
| Torfaen                        | 781                     | 467                | 400                     | 34                    | 53.55              |
| Blaenau Gwent                  | 869                     | 489                | 405                     | 88                    | 51.86              |
| Rhondda Cynon Taf              | 1,314                   | 731                | 618                     | 118                   | 51.67              |
| Casnewydd                      | 852                     | 436                | 408                     | 56                    | 51.26              |
| Wrecsam                        | 738                     | 414                | 347                     | 52                    | 50.58              |
| Bro Morgannwg                  | 713                     | 391                | 336                     | 47                    | 50.45              |
| Abertawe                       | 1,483                   | 795                | 656                     | 172                   | 50.04              |
| Merthyr Tudful                 | 780                     | 380                | 344                     | 64                    | 48.04              |
| Caerffili                      | 912                     | 526                | 404                     | 59                    | 47.36              |
| Castell-nedd Port Talbot       | 815                     | 432                | 342                     | 65                    | 45.60              |
| Caerdydd                       | 1,767                   | 918                | 734                     | 132                   | 44.89              |
| <b>CYFANSWM (Cenedlaethol)</b> | <b>21,666</b>           | <b>13,217</b>      | <b>10,493</b>           | <b>2,446</b>          | <b>54.59</b>       |

\* Defnyddir y sampl gyfan, gan gynnwys y sampl ychwanegol a ychwanegwyd yn C4, ar gyfer cyfrifiadau.

- 5.39 Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio o 44.9% (Caerdydd) i 67.6% (Ynys Môn). Roedd nifer y cyfweliadau a sicrhawyd yn uwch na'r targed mewn 11 o'r 22 ALI. Roedd y rhan fwyaf o ALLau (14) o fewn pum pwynt canrannol i'r cyfartaledd cenedlaethol. Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Fynwy a Phowys oedd yr ardaloedd a berfformiodd orau. Cofnodwyd y cyfraddau ymateb isaf ym Merthyr Tudful, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot a Chaerdydd.
- 5.40 Cafwyd cyfrannau mawr o gyfeiriadau anghymwys ym Mhowys, Gwynedd, Ynys Môn, Abertawe, a Sir Benfro, ac yna Geredigion a Chaerdydd. Cofnodwyd llai o amrywiadau mewn ardaloedd eraill ac yn Nhorfaen y cofnodwyd y gyfradd anghymwys isaf.



## Camau i unioni'r ymateb isel

5.41 Gwnaeth SYG fonitro hynt perfformiad yr ymateb i'r arolwg drwy gydol y cyfnod gwaith maes. Pan ddaeth yn amlwg na fyddai'r arolwg yn cyflawni ei gyfradd ymateb darged o bosibl, cynigiwyd nifer o gamau unioni i Lywodraeth Cymru ac fe'u cymerwyd er mwyn helpu i wella cyfraddau ymateb:

- Cafodd y broses ailddyroddi arferol ei llacio dros dri chwarter cyntaf blwyddyn yr arolwg er mwyn rhoi mwy o amser i gyfwelwyr fynd ar drywydd achosion lle teimlai'r cyfwelwyr y byddai hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol (gweler adran 3.17).
- Ymgwymerwyd â darnau ad hoc o waith dadansoddi yn ystod yr adolygiad o flwyddyn yr arolwg, gan gynnwys, er enghraifft, cymharu'r lefel ymateb ag arolygon eraill SYG, a dadansoddi patrymau ymateb a diffyg ymateb, er mwyn nodi p'un a oedd yr ymateb isel ledled y wlad neu wedi'i gyfyngu i ardaloedd penodol, neu gyfwelwyr penodol. Dangosodd yr adolygiad fod y lefelau ymateb yn mynd ar hyd yr un llinellau â lefelau ymateb arolygon eraill, ac ni ddatgelodd unrhyw beth anarferol o ran amrywiad daearyddol.
- Cynhaliodd SYG arolwg ôl-drafod i gyfwelwyr ym mis Gorffennaf 2016 er mwyn cael adborth o'r gweithlu yn y maes ynglŷn â dyluniad a phroses yr arolwg er mwyn helpu i ddeall p'un a oedd unrhyw broblemau sylfaenol a allai effeithio ar gyfraddau ymateb. Fodd bynnag, ni chynigiodd y canfyddiadau unrhyw dystiolaeth benodol am faterion a oedd yn effeithio ar lefelau ymateb.
- Cyflwynwyd arbrawf cymhelliant ym mis Gorffennaf 2016, a oedd yn rhedeg hyd at ddiwedd mis Hydref 2016 (gweler adran 2.4) er mwyn llywio'r penderfyniad ynghylch cyflwyno cymhelliant yn y dyfodol a'i werth. Am fod lefelau ymateb yn parhau'n isel, daethpwyd â'r arbrawf i ben ar ddechrau mis Hydref 2016, er y bwriadwyd iddo redeg tan fis Rhagfyr 2016, a chyflwynwyd cymhelliant amodol o £10 ar gyfer y sampl gyfan o fis Tachwedd 2016 ymlaen.
- Er mwyn ceisio sampl fwy o faint, dyroddwyd rhan o'r sampl wrth gefn (gweler adran 3.09) yn ystod chwarter olaf blwyddyn yr arolwg, gan gynyddu maint y sampl o 220 o gyfeiriadau ar lefel genedlaethol ar gyfer pob un o'r tri mis (h.y. 660 o gyfeiriadau ychwanegol i gyd).

- Yn ogystal â'r uchod, cynyddodd SYG ei weithlu cyffredinol o gyfwelwyr yn y maes yng Nghymru drwy ychwanegu 15 o gyfwelwyr a ddechreuodd weithio ar yr arolwg ym mis Rhagfyr a mis Ionawr 2017 ac wyth arall ym mis Mawrth 2017 (gweler Tabl 5.1). O'r rhai hynny cafodd rhwng saith a naw yn fwy o gyfwelwyr eu neilltuo ar gyfer gwaith yr Arolwg Cenedlaethol yn y misoedd tan fis Mawrth 2017 (neilltuwyd rhan ohono ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol peilot ym mis Ionawr 2017) er mwyn sicrhau bod digon o gyfwelwyr i ymdrin â'r sampl fwy o faint.<sup>26</sup>

5.42 Arweiniodd y cyfuniad o'r mesurau a restrir uchod at gynnydd yn nifer y cyfweliadau a sicrhawyd yn ystod pedwerydd chwarter y flwyddyn gwaith maes, gan sicrhau bod cyfanswm y cyfweliadau yn nes at y targed a bennwyd, sef 12,000 o gyfweliadau.

---

<sup>26</sup> Mae nifer y cyfwelwyr yn cyfeirio at niferoedd gwirioneddol yn hytrach na ffigur cyfwerth ag amser llawn.

## **6. Prosesu ac allbynnau data**

- 6.1 Mae'r bennod hon yn cwmpasu'r agweddau ar yr arolwg sy'n ymwneud â phrosesu data a chyflawni. Mae hyn yn cynnwys y prosesau codio a golygu data, llunio newidynnau deilliedig, y broses gwirio data a manylion yr allbynnau a roddwyd i Lywodraeth Cymru.

### **Troi achosion cyfweiliadau yn set ddata**

- 6.2 Pan fydd cyfwelwyr yn cwblhau cyfweiliad, trosglwyddir yr achos o bell drwy gysylltiad diogel â Swyddfa Faes SYG. Yna, caiff yr achos hwn ei dderbyn gan y System Rheoli Gwrthrychau sy'n coladu achosion unigol yn ffeil data Blaise. Yna caiff ffeiliau data Blaise (BDB) eu troi o fformat Blaise yn set ddata SPSS ynghyd â ffeil .sps meta ategol drwy becyn VB6 SYG, a ddyluniwyd yn fewnol, a elwir yn 'DataDeliveryExpress'.
- 6.3 Caiff setiau data SPSS newydd eu llunio'n ddyddiol (pan fydd y Swyddfa Faes yn derbyn achosion newydd) a'u cyflwyno i Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG. Pan oedd angen gwaith golygu ychwanegol (gweler adran 6.8) yna anfonwyd achosion yn awtomatig i Dîm Codio a Golygu SYG, ac yna cyflwynwyd set ddata SPSS wedi'i golygu i'r Tîm Ymchwil ar gyfer rhagor o brosesu data.

### **Codio a golygu data**

- 6.4 Lle y bo'n berthnasol, ymgorfforwyd gwiriadau rhesymeg ac ysgogiadau i gyfwelwyr yn sgript CAPI (gweler adran 4.16) er mwyn sicrhau bod yr atebion a roddwyd yn gyson ac yn synhwyrol. Yn ogystal â'r gwiriadau hyn a ymgorfforwyd yn holiadur CAPI, cynhaliwyd nifer o wiriadau (sawl gwaith yr wythnos fel arfer) gan Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG ar setiau data a dderbyniwyd er mwyn tynnu sylw at unrhyw anghysondebau posibl. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod cyfwelwyr wedi dewis yr unigolyn cywir yn y cyfeiriad a samplwyd i'w gyfweld, a bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn yn seiliedig ar lwybro.
- 6.5 Cynhaliwyd gwaith golygu ôl-waith maes hefyd ar y data er mwyn cyfrif am unrhyw anghysondebau mewn ymatebion nas cwmpaswyd gan y gwiriadau a oedd yn rhan o'r holiadur. Er enghraifft, roedd y cwestiwn a ofynnodd i ymatebwyr ddewis y grŵp ethnig roeddent yn perthyn iddo yn cynnwys sawl cod 'Arall (nodwch)', wedi'u rhannu yn ôl grwpiau ethnig gwahanol (e.e. 'Unrhyw gefndir Asiaidd arall'). Os oedd

yr ymateb gair am air a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod yr ymatebydd yn perthyn i gategori 'Arall' gwahanol, cawsant eu hailgodio yn unol â hynny.

- 6.6 Cynhaliwyd gwaith codio ôl-gyfweliad ar ymatebion testun agored gan aelodau o dîm Codio a Golygu SYG, gan ddefnyddio fframiau cod a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Hefyd, edrychoddd y tîm ar unrhyw nodiadau a ychwanegwyd gan gyfwelwyr i'r holiadur, gan dynnu sylw Tîm Ymchwil SYG atynt, os oedd angen camau golygu pellach.

### **Newidynnau deilliedig**

- 6.7 Rhoddwyd rhestr o newidynnau deilliedig angenrheidiol i SYG gan Lywodraeth Cymru. Newidynnau a luniwyd o ddata eraill ydynt, a oedd naill ai'n cael eu casglu yn ystod y cyfweliad neu eu ceisio o ffynonellau eraill (h.y. data daearyddiaeth a chyfrifiad). Ceir y rhestr lawn o newidynnau deilliedig yn Atodiad Ff.

### **Allbynnau data**

- 6.8 Cyflwynwyd set ddata heb ei fformatio i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2016. Roedd y ffeil yn cynnwys data crai y 250 cyfweliad cyntaf a sicrhawyd er mwyn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru sicrhau ansawdd llwybro'r holiadur.
- 6.9 Rhoddodd Llywodraeth Cymru fanylebau penodol ar gyfer y setiau data yr oedd eu hangen i SYG. Roedd y rhain yn nodi'r fformat a'r labelu angenrheidiol ar gyfer pob un o newidynnau'r holiadur a phob newidyn deilliedig a oedd wedi'i gynnwys ym mhob set ddata. Lluniodd SYG newidynnau pwysoli ar gyfer ffeiliau ar lefel unigol ac aelwyd. Ceir manylion am y broses bwysoli a'r newidynnau pwysoli ar y setiau data ym mhennod 7.
- 6.10 Yn seiliedig ar y fanyleb cyflwynodd SYG y ffeiliau data SPSS canlynol i Lywodraeth Cymru:
- Ffeil 'Pob person', yn seiliedig ar ymatebion i'r grid enwadur a gwybodaeth ddemograffig sylfaenol am yr aelwyd gyfan.
  - Ffeil lefel ymatebydd yn seiliedig ar ymatebion i'r holiadur ac yn cynnwys data cyfweliadau ar gyfer yr holl ymatebwyr.
  - Ffeil sampl ddienw, gyda chanlyniadau gwaith maes (e.e. cyfwelwyd, gwrthododd) a data geo-ddemograffig ar gyfer pob cyfeiriad.

- Ffeil nad oedd yn ddienw, gyda data daearyddol ar gyfer pob aelwyd a ymatebodd.
- Ffeil ailgysylltu, gyda manylion cyfeiriadau pob ymatebydd a gytunodd y gellid ailgysylltu â nhw.

6.11 Cyflwynwyd pob set ddata i Lywodraeth Cymru yn gyntaf, fel ffeil data interim ar gyfer pum mis cyntaf yr arolwg ac yna unwaith eto ar ôl naw a 12 mis er mwyn defnyddio dull gwirio iteraidd wrth baratoi i'w cymeradwyo'n derfynol. Profwyd pob ffeil ar gyfer pob iteriad gan Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG er mwyn sicrhau ansawdd a chynhaliwyd gwiriadau eraill ar gynnwys a fformat y setiau data gan Lywodraeth Cymru cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

### **Argaeledd data**

6.12 Er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymuned ymchwil ehangach weld a defnyddio data'r arolwg i'w dadansoddi ymhellach, cynhelir set ddata ar lefel cyfranogwr ac aelwyd y tynnwyd manylion personol yn briodol ohoni yn Archif Data'r DU<sup>27</sup> a chronfa ddata SAIL<sup>28</sup>.

---

<sup>27</sup> <https://www.ukdataservice.ac.uk/>

<sup>28</sup> <https://saildatabank.com/>

## 7. Pwysoli, diffyg ymateb a dadansoddi

- 7.1 Mae'r dull cyffredinol a ddefnyddiwyd i gyfrifo pwysoliadau a'u cymhwyso at ddata 2016-17 yn adlewyrchu protocolau safonol a ddefnyddir i bwysoli arolygon cymdeithasol ac mae'n unol ag arfer gorau rhyngwladol cyfredol. Cyfrifwyd pwysoliadau dyluniad sy'n adlewyrchu tebygolrwydd dewis (ar gyfer aelwydydd ac unigolion), cyn cael eu graddnodi yn ôl amcangyfrifon 2011 yn seiliedig ar boblogaeth ar gyfer 2015 yng Nghymru, a'u haddasu i gynrychioli'r boblogaeth breswyl.<sup>29</sup> Fodd bynnag, mae'r strategaeth bwysoli sylfaenol yn gyson â'r dulliau a ddefnyddiwyd i bwysoli'r prawf maes ar raddfa fawr yn 2015<sup>30</sup> ac Arolwg Iechyd Cymru gynt<sup>31</sup>.
- 7.2 Llunnir pob pwysoliad ar ddau gam:
1. Llunio pwysoliad dyluniad (i wneud iawn am wahaniaethau wrth samplu tebygolrwydd).
  2. Graddnodi pwysoliad (i wneud iawn am wahaniaethau rhwng proffil y sampl a phroffil hysbys y boblogaeth).
- 7.3 Gan y gall diffyg ymateb ar lefel aelwyd ac unigolyn achosi tuedd yn y canlyniadau, fel arfer byddai pwysoliadau yn cael eu haddasu ar gyfer y tebygolrwydd o beidio â sicrhau cyfweliad. Defnyddiwyd model atchweliad rhesymegol wedi'i bwysoli i gyfrifo tueddfryd ymateb ar gyfer mathau gwahanol o aelwydydd. Yn ddelfrydol, dylid gwneud gwaith dadansoddi ar lefel unigolyn hefyd, ond gan nad oes unrhyw wybodaeth am unigolion nad ydynt yn ymateb yn hysbys ar adeg cysylltu, nid oedd modd cynnal y dadansoddiad hwn ar lefel unigolyn. Dangosodd canfyddiadau'r model lefel aelwyd fod tuedd diffyg ymateb yn fach iawn. Felly, penderfynwyd nad oedd angen i'r pwysoliadau gael eu haddasu ar gyfer tuedd diffyg ymateb.
- 7.4 Fel y nodir ym mhennod 3, tynnwyd sampl wrth gefn a defnyddiwyd rhan ohoni yn chwarter olaf blwyddyn yr arolwg er mwyn sicrhau y gellid rhoi cynnig ar fwy o achosion ac felly sicrhau mwy o gyfweliadau. Cafodd sampl y prif arolwg a'r sampl wrth gefn eu trin yn annibynnol yn y broses o lunio'r pwysoliadau dyluniad er mwyn

<sup>29</sup> Mae "poblogaeth breswyl" yn golygu pobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat ledled Cymru. Nid yw'n cynnwys pobl sy'n byw mewn llety sefydliadol (e.e. cartrefi gofal, neuaddau preswyl, carchardai, gwestai a llety gwely a brecwast, a chanolfannau'r fyddin). Ni chaiff pobl mewn llety sefydliadol eu cynnwys mewn arolygon cymdeithasol fel arfer.

<sup>30</sup> Hanson T., Sullivan S., *Prawf Maes Arolwg Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Technegol*, Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 19/2016

<sup>31</sup> Doyle M., Brown L., Cabrera Alvarez P., Brown L., "Arolwg Iechyd Cymru", Adroddiad Technegol 2015, ar gael yn: <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160929-welsh-health-survey-2015-technical-report-cy.pdf>

adlewyrchu'r tebygolrwyddau gwahanol o gael eich cynnwys yn y ddwy sampl hyn. Yna, cafodd y rhain eu graddio a'u cyfuno yn ôl â'r meintiau sampl priodol.

### **Pwysoliadau dyluniad**

7.5 Y cam cyntaf yn y broses bwysoli oedd cyfrifo pwysoliad dyluniad ar gyfer yr aelwyd ac unigolion o fewn aelwydydd, sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd o gael eu dewis.

7.6 Mae pwysoliad dyluniad yr aelwyd yn addas ar gyfer achosion lle mae anheddau lluosog mewn cyfeiriad a samplwyd (e.e. bloc o fflatiau, neu aelwydydd lluosog mewn annedd a samplwyd).

7.7 Cyfrifir y pwysoliad fel a ganlyn:

$$\text{Pwysoliad dyluniad aelwyd} = \frac{N_h \times (\text{Nifer yr aelwydydd mewn annedd}) \times (\text{Nifer yr anheddau mewn cyfeiriad})}{n_h}$$

Lle mai  $n_h$  yw maint y sampl (nifer y cyfeiriadau) a ddyrannwyd o fewn stratwm  $h$  a lle mai  $N_h$  yw maint y boblogaeth (nifer y cyfeiriadau ar y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post) o fewn stratwm  $h$

7.8 Yn y rhan fwyaf o achosion, lluoswm nifer yr anheddau yn y cyfeiriad a nifer yr aelwydydd yn yr annedd fydd un yn y naill achos a'r llall. Pan fo angen cafodd niferoedd eu capio i leihau amrywioldeb yn y pwysoliadau dyluniad ac felly yn y pwysoliadau a raddnodwyd. Cafodd lefel cap o'r fath ei llywio gan ddadansoddiad o'r data a thystiolaeth o arolygon eraill.

7.9 Mae'r pwysoliad dyluniad unigol yn addasu ar gyfer dewis un oedolyn ar hap o fewn aelwydydd a samplwyd a oedd yn cynnwys mwy nag un oedolyn 16 oed neu'n hŷn. Cyfrifir y pwysoliad fel a ganlyn:

$$\text{Pwysoliad dyluniad unigol} = \text{Pwysoliad dyluniad aelwyd addasedig}_i \times m_i$$

Lle mai  $m_i$  yw nifer y bobl 16 oed neu'n hŷn mewn aelwyd  $i$ .

7.10 Er mwyn osgoi amrywiad o fewn cyfeiriad anghymesur yn y pwysoliadau, cymhwyswyd cap o 4 at y pwysoliad.

## Graddnodi pwysoliadau

- 7.11 Yn olaf, yna caiff y pwysoliadau dyluniad addasedig ar lefel aelwyd ac unigolyn eu graddnodi yn unol â'r tablau poblogaeth perthnasol. Fel arfer, mae'r adnoddau poblogaeth a ddefnyddir wrth raddnodi yn cyfeirio at yr un cyfnod â'r arolwg ei hun er mwyn rhoi cyfansymiau yn ôl ALI ar gyfer unigolion ac aelwydydd. Yr amcangyfrifon poblogaeth mwyaf diweddar a oedd ar gael ar gyfer pwysoliadau 2016-17 oedd amcangyfrifon o boblogaeth Cymru yn 2015 yn seiliedig ar y boblogaeth yn 2011 (addaswyd (addaswyd ar gyfer y boblogaeth breswyl)).<sup>32</sup> Wrth benderfynu ar grwpiau graddnodi priodol, roedd angen i'r rhai fod yn ddigon mawr i gyfyngu ar amrywiad yn y pwysoliadau. Ar gyfer pwysoliadau oedolyn, ystyriodd y broses raddnodi oedran, rhyw ac ALI i ddechrau. Ystyriwyd grwpiau graddnodi priodol wrth i ddata ddod i law yn ystod ychydig fisoedd cyntaf yr arolwg a chawsant eu cynnwys yn y broses o gyfrifo'r pwysoliadau lle y bo'n berthnasol.
- 7.12 Defnyddiwyd amcangyfrifon priodol o nifer yr aelwydydd preifat yng Nghymru i raddnodi'r pwysoliad dyluniad aelwyd addasedig yn unol â'r cyfansymiau poblogaeth hysbys hyn. Gwnaed gwaith dadansoddi i ystyried a fyddai defnyddio gwybodaeth megis aelodau aelwyd, o ran nifer yr oedolion a phlant mewn aelwyd, yn fuddiol o ran diffinio grwpiau graddnodi ac yn y broses raddnodi.
- 7.13 Defnyddiwyd cyfansymiau poblogaeth priodol i raddnodi'r pwysoliad dylunio unigol addasedig er mwyn cynrychioli'r boblogaeth o oedolion 16 oed neu'n hŷn yng Nghymru. Ymhlith y newidynnau a ystyriwyd ar gyfer grwpiau graddnodi roedd oedran, rhyw ac awdurdod lleol (ALI). Nodwyd y grwpiau graddnodi mwyaf priodol drwy sicrhau bod grwpiau graddnodi o faint addas (h.y. mwy na 30 o ymatebion yn y sampl).
- 7.14 O ganlyniad i'r dadansoddiad, defnyddiwyd y newidynnau canlynol i raddnodi'r pwysoliadau amrywiol:

---

<sup>32</sup> Llywodraeth Cymru, Prosiectau Poblogaeth StatsCymru, <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2011-Based/PopulationProjections-by-LocalAuthority-Year>



**Tabl 7.1: Newidynnau a ddefnyddiwyd i raddnodi pwysoliadau**

| <b>Aelwyd</b>                  | <b>Poblogaeth</b>               | <b>Oedolyn</b>                  | <b>Plentyn</b>         |
|--------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|------------------------|
| Awdurdod lleol (22)            | Awdurdod lleol (22)             | Awdurdod lleol (22)             | Rhanbarth (4)          |
| Cyfansoddiad yr aelwyd         | Oedran Rhyw yn ôl Gwryw a Benyw | Oedran Rhyw yn ôl Gwryw a Benyw | Gogledd-orllewin Cymru |
| Aelwyd 1 person (dim plentyn)  | 0-4 oed                         | 16-19 oed                       | Canolbarth Cymru       |
| Aelwyd 2 berson a phlentyn     | 5-10 oed                        | 20-24 oed                       | De-orllewin Cymru      |
| Aelwyd 2 berson (dim plentyn)  | 11-15 oed                       | 25-29 oed                       | De-ddwyrain Cymru      |
| Aelwyd 3 pherson a dau o blant | 16-19 oed                       | 30-34 oed                       | Rhyw                   |
| Aelwyd 3 pherson ac un plentyn | 20-24 oed                       | 35-39 oed                       | Oedran (3-17)          |
| Aelwyd 3 pherson (dim plant)   | 25-29 oed                       | 40-44 oed                       |                        |
| Aelwyd 4 person a phlant       | 30-34 oed                       | 45-49 oed                       |                        |
| Aelwyd 4 person (dim plant)    | 35-39 oed                       | 50-54 oed                       |                        |
| Aelwyd 5 person a mwy          | 40-44 oed                       | 55-59 oed                       |                        |
|                                | 45-49 oed                       | 60 - 64 oed                     |                        |
|                                | 50-54 oed                       | 65-69 oed                       |                        |
|                                | 55-59 oed                       | 70-74 oed                       |                        |
|                                | 60 - 64 oed                     | 75 oed neu'n hŷn                |                        |
|                                | 65-69 oed                       |                                 |                        |
|                                | 70-74 oed                       |                                 |                        |
|                                | 75 oed neu'n hŷn                |                                 |                        |

- 7.15 Mae'r pwysoliadau sydd ar gael ar gyfer 2016-17 fel a ganlyn: pwysoliad aelwyd, pwysoliad oedolyn, pwysoliad poblogaeth a phwysoliad plentyn. Rhoddir pwysoliad oedolyn ar wahân ar gyfer pob modiwl a is-samplwyd er mwyn ei gwneud yn bosibl i amcangyfrif cyfansymiau yn gywir o'r ymatebion i'r cwestiynau ym mhob is-sampl. Bydd pwysoliadau o'r fath yn cyfrif am y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gael eich dewis rhwng y prif arolwg ac ar gyfer yr is-sampl. Mae fersiynau heb eu grosio o bob un o'r pwysoliadau hyn hefyd ar gael, sy'n rhoi sampl a sicrhawyd wedi'i phwysoli sy'n hafal i faint y sampl a sicrhawyd sydd heb ei phwysoli. Cafodd pwysoliadau heb eu grosio eu llunio bob chwarter i ddechrau yn unol â'r pwysoliadau wedi'u graddnodi, lle cafodd pob chwarter ei raddio i fyny i'w maint sampl priodol. Canfuwyd bod pwysoliadau heb eu grosio a phwysoliadau wedi'u

graddnodi yn arwain at amcangyfrifon ychydig yn wahanol, felly cafodd pob un o'r pedwar chwarter ei raddio i fyny ar yr un pryd yn unol â'r maint sampl cyffredinol. Yna cafodd y pwysoliadau heb eu grosio eu gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud swm a oedd yn hafal i'r cyfansymiau sampl cywir. Mae Atodiad Ng yn rhoi trosolwg o'r holl bwysoliadau a gynhwyswyd yn setiau data 2016-17:

7.16 Mae'r tablau canlynol yn rhoi amcangyfrifon o boblogaeth 2015 a amcanestynnwyd.

**Tabl 7.2: Amcangyfrifon o boblogaeth breswyl 2015 yn ôl oedran a rhyw**

| <b>Oedran yn ôl rhyw</b> |       | <b>N</b>         | <b>%</b>     |
|--------------------------|-------|------------------|--------------|
| Gwryw                    | 0-4   | 90,016           | 3.0          |
| Gwryw                    | 5-10  | 109,338          | 3.6          |
| Gwryw                    | 11-15 | 84,916           | 2.8          |
| Gwryw                    | 16-19 | 72,666           | 2.4          |
| Gwryw                    | 20-24 | 105,219          | 3.5          |
| Gwryw                    | 25-29 | 97,420           | 3.2          |
| Gwryw                    | 30-34 | 89,428           | 2.9          |
| Gwryw                    | 35-39 | 83,918           | 2.8          |
| Gwryw                    | 40-44 | 92,430           | 3.0          |
| Gwryw                    | 45-49 | 103,962          | 3.4          |
| Gwryw                    | 50-54 | 107,001          | 3.5          |
| Gwryw                    | 55-59 | 95,793           | 3.1          |
| Gwryw                    | 60-64 | 89,697           | 2.9          |
| Gwryw                    | 65-69 | 95,066           | 3.1          |
| Gwryw                    | 70-74 | 71,648           | 2.4          |
| Gwryw                    | 75-79 | 54,731           | 1.8          |
| Gwryw                    | 80+   | 57,786           | 1.9          |
| Benyw                    | 0-4   | 85,637           | 2.8          |
| Benyw                    | 5-10  | 104,180          | 3.4          |
| Benyw                    | 11-15 | 80,221           | 2.6          |
| Benyw                    | 16-19 | 67,264           | 2.2          |
| Benyw                    | 20-24 | 99,638           | 3.3          |
| Benyw                    | 25-29 | 95,063           | 3.1          |
| Benyw                    | 30-34 | 90,950           | 3.0          |
| Benyw                    | 35-39 | 85,732           | 2.8          |
| Benyw                    | 40-44 | 96,537           | 3.2          |
| Benyw                    | 45-49 | 109,105          | 3.6          |
| Benyw                    | 50-54 | 111,628          | 3.7          |
| Benyw                    | 55-59 | 100,388          | 3.3          |
| Benyw                    | 60-64 | 94,262           | 3.1          |
| Benyw                    | 65-69 | 99,322           | 3.3          |
| Benyw                    | 70-74 | 77,136           | 2.5          |
| Benyw                    | 75-79 | 68,684           | 2.3          |
| Benyw                    | 80+   | 79,067           | 2.6          |
| Arall                    |       | 1,228            | 0.0          |
| <b>Pob un</b>            |       | <b>3,047,075</b> | <b>100.0</b> |

**Tabl 7.3: Amcangyfrifon o boblogaeth 2015, a amcanestynnwyd yn ôl oedran ac Awdurdod Lleol**

| <b>Awdurdod lleol</b>    | <b>0-24</b>    | <b>25-64</b>     | <b>65-74</b>   | <b>75+</b>     |
|--------------------------|----------------|------------------|----------------|----------------|
| Ynys Môn                 | 20,662         | 33,098           | 8,557          | 6,820          |
| Gwynedd                  | 36,434         | 55,907           | 14,262         | 12,377         |
| Conwy                    | 27,944         | 52,987           | 18,278         | 14,228         |
| Sir Ddinbych             | 25,805         | 47,719           | 11,227         | 8,709          |
| Sir y Fflint             | 41,930         | 82,855           | 15,336         | 13,075         |
| Wrecsam                  | 40,344         | 67,644           | 16,438         | 10,586         |
| Powys                    | 32,864         | 66,491           | 17,356         | 13,929         |
| Ceredigion               | 20,916         | 34,569           | 8,228          | 6,944          |
| Sir Benfro               | 31,026         | 55,784           | 20,423         | 14,239         |
| Sir Gaerfyrddin          | 50,876         | 93,545           | 21,176         | 16,956         |
| Abertawe                 | 75,481         | 115,729          | 26,465         | 20,037         |
| Castell-nedd Port Talbot | 41,735         | 69,067           | 16,864         | 12,171         |
| Pen-y-bont ar Ogwr       | 41,740         | 70,313           | 15,300         | 12,358         |
| Bro Morgannwg            | 33,529         | 66,305           | 13,682         | 11,982         |
| Caerdydd                 | 122,303        | 175,558          | 27,054         | 21,027         |
| Rhondda Cynon Taf        | 70,931         | 124,221          | 24,827         | 14,897         |
| Merthyr Tudful           | 17,881         | 30,244           | 6,630          | 4,085          |
| Caerffili                | 48,273         | 91,723           | 21,971         | 17,109         |
| Blaenau Gwent            | 20,225         | 35,889           | 7,928          | 4,920          |
| Torfaen                  | 24,981         | 50,993           | 8,372          | 6,742          |
| Sir Fynwy                | 27,365         | 45,793           | 10,042         | 7,604          |
| Casnewydd                | 46,493         | 77,251           | 12,828         | 9,613          |
| <b>Pob un</b>            | <b>899,738</b> | <b>1,543,685</b> | <b>343,244</b> | <b>260,408</b> |

**Tabl 7.4: Amcangyfrifon o ddeiliadaeth aelwydydd 2015, a amcanestynnwyd yn ôl Awdurdod Leol**

| <b>Awdurdod lleol</b>    | <b>Perchen-ddeiliad</b> | <b>Arall</b>   |
|--------------------------|-------------------------|----------------|
| Ynys Môn                 | 21,584                  | 9,376          |
| Gwynedd                  | 36,607                  | 16,813         |
| Conwy                    | 38,754                  | 13,278         |
| Sir Ddinbych             | 29,322                  | 11,874         |
| Sir y Fflint             | 46,263                  | 18,911         |
| Wrecsam                  | 37,592                  | 20,817         |
| Powys                    | 42,751                  | 16,388         |
| Ceredigion               | 21,574                  | 9,858          |
| Sir Benfro               | 38,876                  | 15,443         |
| Sir Gaerfyrddin          | 55,911                  | 24,405         |
| Abertawe                 | 68,674                  | 37,424         |
| Castell-nedd Port Talbot | 42,981                  | 18,188         |
| Pen-y-bont ar Ogwr       | 47,837                  | 12,457         |
| Bro Morgannwg            | 43,416                  | 11,401         |
| Caerdydd                 | 97,681                  | 51,388         |
| Rhondda Cynon Taf        | 72,104                  | 30,437         |
| Merthyr Tudful           | 15,874                  | 8,836          |
| Caerffili                | 55,718                  | 19,860         |
| Blaenau Gwent            | 17,677                  | 13,035         |
| Torfaen                  | 25,996                  | 13,337         |
| Sir Fynwy                | 29,291                  | 9,773          |
| Casnewydd                | 39,778                  | 22,806         |
| <b>Pob un</b>            | <b>926,261</b>          | <b>406,105</b> |

**Tabl 7.5: Amcangyfrifon o aelodaeth aelwydydd 2015**

| <b>Disgrifiad o'r grŵp</b>                         | <b>Maint y grŵp</b> |
|----------------------------------------------------|---------------------|
| Un pensïynwr (dim plant)                           | 236,030             |
| Cwpl priod sy'n bensiynwyr (dim plant)             | 164,471             |
| Un unigolyn, ddim yn bensiynwr (dim plant)         | 183,478             |
| Aelwyd dau oedolyn a phlant                        | 221,282             |
| Aelwyd dau oedolyn (hyd at un pensïynwr) heb blant | 241,778             |
| Aelwyd rhiant unigol                               | 86,707              |
| Aelwydydd eraill                                   | 198,613             |
| <b>Cyfanswm</b>                                    | <b>1,332,359</b>    |

## Effeithiau a ffactorau dyluniad

- 7.17 Cyfrifwyd effeithiau a ffactorau dyluniad ar gyfer sawl newidyn gan ei gwneud yn bosibl i feintiau sampl effeithiol gael eu llunio ar lefel genedlaethol a lefel leol. Mae tabl 7.6 yn rhoi trosolwg o'r effaith ddylunio gyfartalog ar lefel awdurdod lleol yn seiliedig ar nifer o gwestiynau dethol a ofynnwyd i'r sampl gyfan o ymatebwyr.

**Table 7.6: Amcangyfrifon o gyfansoddiad aelwydydd 2015** <sup>33</sup>

| <b>Awdurdod lleol</b>    | <b>Effaith ddylunio</b> | <b>Maint sampl effeithiol</b> |
|--------------------------|-------------------------|-------------------------------|
| Ynys Môn                 | 1.23                    | 270                           |
| Gwynedd                  | 1.19                    | 335                           |
| Conwy                    | 1.25                    | 244                           |
| Sir Ddinbych             | 1.27                    | 241                           |
| Sir y Fflint             | 1.32                    | 263                           |
| Wrecsam                  | 1.27                    | 221                           |
| Powys                    | 1.37                    | 644                           |
| Ceredigion               | 1.24                    | 285                           |
| Sir Benfro               | 1.26                    | 272                           |
| Sir Gaerfyrddin          | 1.31                    | 333                           |
| Abertawe                 | 1.31                    | 392                           |
| Castell-nedd Port Talbot | 1.35                    | 185                           |
| Pen-y-bont ar Ogwr       | 1.27                    | 233                           |
| Bro Morgannwg            | 1.25                    | 217                           |
| Caerdydd                 | 1.24                    | 487                           |
| Rhondda Cynon Taf        | 1.19                    | 442                           |
| Merthyr Tudful           | 1.16                    | 257                           |
| Caerffili                | 1.29                    | 243                           |
| Blaenau Gwent            | 1.26                    | 255                           |
| Torfaen                  | 1.25                    | 263                           |
| Sir Fynwy                | 1.39                    | 213                           |
| Casnewydd                | 1.20                    | 284                           |
| <b>Cyfartaledd</b>       | <b>1.27</b>             | <b>299</b>                    |
| <b>Sampl lawn</b>        | <b>1.53</b>             | <b>6871</b>                   |

- 7.18 Caiff dadansoddiadau pellach o newidynnau dethol yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol, rhyw, grŵp oedran, statws economaidd, ac amddifadedd materol aelwyd eu cynnwys yn Atodiad M.
- 7.19 Mae tabl 7.7 yn dangos yr effeithiau dylunio, y ffactorau dylunio a'r cyfyngau hyder ar gyfer amrywiaeth o gwestiynau yn arolwg 2016-17..

<sup>33</sup> Gofynnwyd y newidynnau a ddefnyddiwyd i gyfrifo effeithiau dylunio cyfartalog i'r sampl lawn, sef IntPersUse, EdOverSat, UqualServ, WbLifeWrth, WelSpk, Dvsmokec, Dvalcushibi, Dvmvpa150 a DvFGHealth1.

**Table 7.7: Amcangyfrifon o gyfansoddiad aelwydydd 2015 <sup>34</sup>**

